# GWERTHUSIAD O'R DEFNYDD O GYMORTH CYLLID CRAIDD APADGOS I CHWARAE TEG

## <u>ADRODDIAD</u>

**Martin Rolph**
**<u>7 Medi 2010</u>**

## Cynnwys


**1. Crynodeb**
**2. Cyflwyniad**
**3. Chwarae Teg - cefndir cyffredinol**
**4. Cyd-destun Cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru**
4.3 Rhaglen Adnewyddu'r Economi
4.7 Strategaeth Tlodi Plant Cymru
4.10 Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Sector Gwirfoddol
4.11 Cyd-destun y DU ac Ewrop
4.17 A oes cyrff cymharol yn gweithredu yn y DU a thu hwnt?

**5. Beth mae Chwarae Teg yn ei wneud, beth mae wedi ei wneud, a'i ffynonellau cyllido.**
5.7 Integreiddio ymchwil, strategaeth, cyngor ar bolisi a gweithgarwch cyflawni
5.9 Cenedl Hyblyg
5.13 Effaith Statws Elusennol
5.14 Ffynonellau Cyllido
5.17 "Trosoledd" a sicrhawyd gan Chwarae Teg ers 2000
5.18 Mewnbynnau anariannol a sicrheir gan Chwarae Teg

**6. Materion i'w hystyried**
6.2 Pa mor bwysig yw gweithgareddau (tebygol ac arfaethedig) Chwarae Teg i bolisïau a strategaethau cyfredol a thebygol Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol?
6.8 Sut y mae Chwarae Teg wedi helpu ei randdeiliaid?
6.9 Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd
6.14 Cyfleoedd i Chwarae Teg ehangu'r amrywiaeth o ffynonellau cyllido? A beth fyddai goblygiadau mwy o gyllid o'r sector preifat?
6.21 Pa gyrff cymharol eraill sy'n bodoli ai peidio yn y DU? Pa wersi a gynigiant wrth ystyried cymorth Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg?
6.23 Pa gyflenwyr posibl eraill sydd o ran yr hyn y mae Chwarae Teg yn bodoli i'w gyflawni?
6.24 Pa gyfleoedd y mae Chwarae Teg yn debygol o'u hwynebu sy'n debygol o fod o ddiddordeb i Lywodraeth y Cynulliad?
6.26 Pa heriau mawr a gwendidau a wynebir gan Chwarae Teg, a fyddai'n amharu'n sylweddol ar ei allu i gyflawni dros Lywodraeth y Cynulliad?
6.29 Materion sy'n ymwneud â ph'un a ddylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i ddarparu cyllid craidd mewn egwyddor
6.31 Y berthynas rhwng cyllid craidd a chyllido prosiect
6.34 Hyd y cytundeb cyllid craidd nesaf
6.35 Materion ynglŷn â Cymorth Gwladwriaethol yr UE

**7. Casgliad ar Argymhellion**

**Atodiadau**

1. Cylch Gorchwyl
2. Pobl y cynhaliwyd trafodaethau gyda hwy
3 Strategaeth Tlodi Plant
4 Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Sector Gwirfoddol
5. Gweithgareddau diweddar Chwarae Teg (yn fanylach)
6. Cenedl Hyblyg (yn fanylach)
7. Lefelau cyflog staff

8. Cymorthion Gwladwriaethol

## 1. CRYNODEB

1.1 Chwarae Teg yw'r unig sefydliad i Gymru gyfan sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfraniad economaidd gynaliadwy **menywod** mewn meysydd megis cyflogaeth, sgiliau, entrepreneuriaeth ac ati, gan gynnwys cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gweithio hyblyg, dewisiadau academaidd a gyrfaol merched a menywod ifanc, ac ati. Fodd bynnag, nid oes yr un mater bron y mae'n ymdrin ag ef yn ymwneud â menywod yn unig. Er enghraifft, mae materion cyflogaeth, sgiliau ac entrepreneuriaeth sy'n ymwneud â rhieni sengl yn ymwneud â rhai dynion (er mai dim ond un o bob naw rhiant sengl sy'n ddynion) ac, wrth gwrs, plant.

1.2 Mae gwaith Chwarae Teg bron i gyd yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig ym meysydd sgiliau a datblygu economaidd, ac mae hefyd yn cyfrannu at y broses o fynd i'r afael â thlodi plant, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ati, ond mae ganddo'r potensial i wneud rhagor. Mae gan Chwarae Teg enw da a hygrededd o ran cyngor ar bolisi, cyngor strategol a chyngor ymarferol; a hefyd o ran cyflawni prosiectau rheng flaen a gwaith arall.

1.3 Mae Chwarae Teg yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n rhoi gwerth am arian. Mae'n cyflawni mewn meysydd lle nad oes fawr ddim marchnad fasnachol, na sefydliadau amgen i Gymru gyfan ar hyn o bryd. Mae rhwydweithiau a gwybodaeth ei staff cyfredol yn adnodd pwysig, wedi'u datblygu drwy ymwneud dewisol ac am ddim i raddau helaeth gan randdeiliaid ledled Cymru, ynghyd ag arian cyhoeddus.

1.4 Nid yw Chwarae Teg wedi dewis mynd ati i sicrhau'r incwm mwyaf posibl. Bu iddo arloesi darpariaeth gofal plant yn y 1990au, yn enwedig clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. Penderfynodd roi'r gorau i weithgareddau o'r fath ar ôl i'r ddarpariaeth hon ddod yn ddarpariaeth brif ffrwd, er mwyn i'w Fwrdd a'i uwch staff (sy'n weddill) roi mwy o'u hamser a'u hegni i feysydd eraill y penderfynwyd bod angen rhoi mwy o sylw iddynt.

1.5 Felly mae Chwarae Teg, ers ei sefydlu, wedi dibynnu'n fawr ar arian cyhoeddus - ond amrywiaeth o arian cyhoeddus, o wahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad ac o lefelau eraill o'r llywodraeth. Yn ystod yr 8-9 mlynedd diwethaf, llwyddodd Chwarae Teg i sicrhau a chyflawni, neu mae'n wrthi'n cyflawni, gweithgarwch prosiect gwerth dros £23 miliwn, a ariennir gan arian yr UE yn bennaf. Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn wedi digwydd o gwbl pe na bai Chwarae Teg wedi bodoli ar ffurf gymwys ac arwyddocaol. Mae hyn yn arbennig o wir am brosiect Cenedl Hyblyg, sy'n werth dros £12 miliwn, sy'n parhau tan ddechrau 2014 yr ariennir dwy ran o dair ohono gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

1.6 Os bydd Chwarae Teg yn parhau i fodoli, mae angen iddo sicrhau arian cyhoeddus ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, gan gynnwys cyllid craidd y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arno yn anad dim. Yn ei gasgliad mae'r adroddiad hwn yn argymell y dylai o leiaf un cytundeb cyllid craidd arall ar y lefelau cyfredol neu'n agos atynt gael ei drefnu eleni, i ddechrau o fis Ebrill 2011.

1.7 Argymhelliad pwysig arall yw y dylai APADGOS, fel prif adran Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu cyllid craidd, arwain ystyriaeth bellach o gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg tua 12 mis cyn diwedd y cyfnod cyllid craidd, yr argymhellir y dylai ddechrau ym mis Ebrill 2011, yng ngoleuni'r ffordd y mae Chwarae Teg a'r amgylchedd economaidd a sgiliau wedi datblygu erbyn hynny; a'i ragolygon am sicrhau prosiectau eraill a ariennir gan yr UE; ac y dylai Chwarae Teg ddatblygu ei

brosesau cyfathrebu allanol i gynyddu'r gwerth y mae'r hyn a wna yn ei ychwanegu drwy ddwysau ymhellach yr effaith a'r canlyniadau y mae ei waith yn helpu i'w cyflawni.

## 2 CYFLWYNIAD

2.1 Rhoddwyd cymorth gan y Sector Cyhoeddus (gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal gynt ac eraill) i Chwarae Teg yn 1992 yn gyntaf pan y'i crëwyd, mae cymorth gan y Swyddfa Gymreig a Llywodraeth y Cynulliad bellach wedi parhau bob blwyddyn, yn fwyaf diweddar (ar gyfer 2005-08 a 2008-11) ar sail cynllun busnes 3 blynedd yn achos **cyllid craidd**. Yn ogystal â hynny mae amrywiaeth o **brosiectau** (a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r UE yn benodol yn ystod y blynyddoedd diwethaf) wedi'i sicrhau drwy gydol ei oes.

2.2 Yn 2010-11, bydd gan Chwarae Teg gyllideb o tua £3 miliwn. Mae cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrif am bron £442,000 (a gymeradwywyd, fel trydedd blwyddyn cynllun busnes 3 blynedd, gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar y pryd yn 2008).

2.3 Mae'r gwerthusiad hwn yn dilyn argymhelliad archwiliad mewnol, i'r isadran yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am y cyllid craidd, y dylid ystyried comisiynu gwerthusiad allanol (fel mater o lywodraethu da yn hytrach nag mewn ymateb i bryderon penodol), er mwyn cadarnhau i ba raddau y defnyddir grant **cyllid craidd** Llywodraeth y Cynulliad yn effeithlon ac yn effeithiol. Ceir cylch gorchwyl y gwerthusiad hwn yn Atodiad 1.

### Methodoleg

2.4 Oherwydd natur y gwerthusiad hwn, mae llawer o'r dystiolaeth fydd ei hangen yn ansoddol yn hytrach na meintiol (mae'r olaf yn bwysicach o ran ystyried yr hyn a gyflawnir gan weithgareddau **a ariennir drwy brosiectau** a'u canlyniadau). Felly wrth gasglu tystiolaeth aethpwyd ati i gynnal ymchwil ddesg a chyfweliadau ag amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol a mewnol yn bennaf. Ceir rhestr o'r rhai y cafwyd trafodaethau gyda hwy yn Atodiad 2.

2.5 Strwythurwyd y trafodaethau yn fras i ganfod y ffeithiau am ymwybyddiaeth pob unigolyn o Chwarae Teg a'i ymwneud ag ef yn gyntaf; ac yna ar sail y profiad hwnnw gofynnwyd am safbwyntiau pob unigolyn ynglŷn â chyfraniadau a nodweddion pwysicaf Chwarae Teg, gan symud ymlaen i geisio barn unigolion ynglŷn â'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan Chwarae Teg dros y 3-5 mlynedd nesaf. Yn fras iawn, math o Ymchwiliad Gwerthfawrogol.

2.6 Cadwyd mewn cysylltiad agos â'r isadran arweiniol yn APADGOS sy'n gyfrifol am y cyllid craidd hwn a hefyd â Phrif Weithredwr Chwarae Teg, wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

### Cydnabyddiaeth

2.7 Hoffwn ddiolch i bawb a restrwyd yn Atodiad 2 am roi o'u hamser ac am gynnig gwybodaeth a safbwyntiau na fyddai wedi bod yn bosibl paratoi'r adroddiad hwn hebddynt. Fi sy'n gyfrifol yn gyfan gwbl am y casgliadau y dof iddynt. Hoffwn hefyd ddiolch i staff Gwasanaeth Prosesu Testun Llywodraeth y Cynulliad, a roddodd gymaint o gymorth yn y gwaith o gyflwyno'r adroddiad hwn.

## 3. CHWARAE TEG - CEFNDIR CYFFREDINOL

3.1 Sefydlwyd Chwarae Teg yn 1992 i gynorthwyo, datblygu ac ehangu rôl menywod yn economi Cymru. Roedd y rhwystrau'n cynnwys: y rhaniad o hyd yn ôl galwedigaeth (yn **fertigol** - hy mwy o fenywod ar lefelau iau, llai ar lefelau uwch, na dynion; a **llorweddol** - llawer mewn rhai sectorau galwedigaethol, ychydig iawn mewn eraill); gor-gynrychiolaeth o fenywod ymhlith pobl gweithio sy'n dlawd; y bwlch cyflog rhwng y rhywiau; prinder menywod mewn uwch swyddi a swyddi rheoli; a'r nifer gyfyngedig o fenywod mewn rolau gwneud penderfyniadau. Roedd y rhain oll yn cyflwyno heriau ac maent yn parhau i wneud hynny, er bod canlyniadau cymharol wedi newid mewn rhai meysydd.

3.2 Nod Chwarae Teg yw cynllunio a rheoli prosiectau (gan gynnwys ymchwil i lywio polisïau a chamau gweithredu) i helpu menywod i oresgyn rhwystrau a thrwy hynny chwarae mwy o ran yn economi Cymru, er budd menywod unigol, eu cyflogwyr neu eu busnesau, eu cymunedau ac economi Cymru.

3.3 Cwmni cyfyngedig drwy warant yw Chwarae Teg , ac mae iddo statws elusennol ac mae'n aelod o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 11 o aelodau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), y byd academaidd, llywodraeth leol, TUC Cymru a chanolfannau byd gwaith.

3.4 Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth elusennol gyda nodau ac amcanion:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal yn y gweithle drwy ddarparu addysg a hyfforddiant a thrwy ddarparu cyfleusterau eraill er mwyn galluogi cydraddoldeb a chyfle yn y gweithle.
- Cynnal ymchwil i gyfle cyfartal a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol,
- Gostwng diweithdra.

3.5 Yn ei Gynllun Busnes ar gyfer 2008-2011, pennodd Chwarae Teg 6 nod strategol allweddol:

1. Cynyddu cyfranogiad menywod yn yr economi, eu datblygiad a'u cyfraddau cadw gan gynnwys y sectorau lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd.

2. Gwella cynrychiolaeth menywod mewn uwch swyddi a swyddi gwneud penderfyniadau.

3. Helpu i sicrhau bod gan Gymru economi fodern sy'n seiliedig ar arferion Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.

4. Cynyddu nifer y menywod sy'n dechrau ac yn tyfu busnesau.

5. Dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer a'u llywio drwy wybodaeth/profiad ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, astudiaethau a data.

6. Datblygu a chynnal seilwaith i ategu'r gallu sefydliadol i gynnal gweithgareddau, systemau a swyddogaethau.

3.6 Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithredu llwyddiannus gan Chwarae Teg mae: TUC Cymru (Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith); awdurdodau lleol (amryw fentrau gan

gynnwys Menter Gofal Plant), Llywodraeth y Cynulliad (Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, ymchwil a pholisïau; prosiect Cydraddoldeb BBaChau, Menter Merched Cymru, Potential); sefydliadau yn y sector preifat (Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith); a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal gynt (gan gynnwys prosiectau ymchwil)

**Beth mae Chwarae Teg yn ei wneud gyda'i Gyllid Craidd**

3.7 Mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar werthuso'r hyn a gyflawnir gan Chwarae Teg gyda chymorth cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad.

3.8 Ym mharagraff 3.6 cyfeiriwyd at rai o'r prosiectau mawr y mae Chwarae Teg wedi cael cyllid i'w cyflawni. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu gwerthuso. Bwriedir cynnal gwerthusiad interim o brosiect Cenedl Hyblyg 2008-014 ar ddiwedd 2010/ddechrau 2011 ynghyd â gwerthusiad pan ddaw i ben.

3.9 Disgrifir yr hyn y mae Chwarae Teg wedi bod yn ei wneud ac yn parhau i'w wneud gyda'i gyllid craidd yn fanylach yn adran 5 o'r adroddiad hwn, a cheir disgrifiad o'r sefyllfa ynglŷn â'i ffynonellau cyllido. Ond yn gyntaf, gan fod y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad, mae adran 4 yn ystyried cyd-destun polisi a chyd-destun strategol y cymorth hwnnw.

## 4. CYD-DESTUN CYMORTH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

4.1 Mae gwerthuso i ba raddau y mae cymorth Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg wedi cyflawni ei amcanion yn gofyn am ystyried strategaethau a pholisïau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad, ac ym mha ffyrdd, ac i ba raddau, y mae Chwarae Teg yn gyson â hwy ac wedi cyfrannu i'w hyrwyddo. Ac yna bydd angen ystyried y ffordd y mae'r cyd-destun hwnnw yn debygol o ddatblygu ar ôl mis Ebrill 2011, er na all neb fod yn sicr ar hyn o bryd ynglŷn â'r union gyfeiriad yn y dyfodol.

4.2 Strategaethau a pholisïau economaidd Llywodraeth y Cynulliad sy'n berthnasol:

1. **Cymru'n Un (2007) "**Rhaid rhoi cyfle i bawb gael safon byw resymol waeth ble maent yn byw neu beth bynnag maent yn ei wneud. "Byddwn yn datblygu rhaglen **wedi'i thargedu** [fy mhwyslais i] i wella lefelau sgiliau ar gyfer …anghenion y gweithle"… "Ein huchelgais yw Cymru lle mae pawb yn cyflawni ei lawn botensial a lle nad oes unrhyw un yn byw mewn tlodi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na cham-drin.." …….. "nod hirdymor o gyflogaeth lawn ar gyfradd o 80%."…………. "Mae datgelu potensial pobl Cymru yn hanfodol i'n ffyniant."

2. **Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru (2005**), a dynnodd sylw at yr angen i agor cyfleoedd cyflogaeth i fenywod ac sy'n cydnabod y rhwystr i gyflogaeth a datblygiad gyrfa a wynebir gan lawer, gan arwain at "Y Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru" (2008).

3. **Cymru, y Wlad sy'n Dysgu 2** - a ailddatganodd ymrwymiad i weithredu dyletswyddau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal i bawb ddysgu a datblygu sgiliau.

4. **The Leading Edge of Welsh Businesses – Enhancing Leadership and Management Skills Delivery plan (2008)** a lywiwyd gan adroddiad yn 2007 gan Gyngor Rheoli Cymru ("Action for Growth"), Adolygiad (Leitch) y DU o Sgiliau (2007) ac yng nghyd-destun "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru". Nododd y cynllun fod menywod yn cyfrif am 35% yn unig o reolwyr ar bob lefel, gan ostwng yn sydyn ar lefelau uwch; dim ond 20% o reolwyr berchenogion (ledled y DU) dim ond 3.8% o aelodau o fyrddau can cwmni'r FTSE. Cyfeiriodd y Cynllun hefyd at bwysigrwydd rhaglenni cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o ran cynnig gwell hyfforddiant mewn arweiniad a rheoli.

**Rhaglen Adnewyddu'r Economi**

4.3 Yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad hwn, lansiodd y Dirprwy Brif Weinidog fenter i ddatblygu Rhaglen Adnewyddu'r Economi gyda'r nod o ymdrin â datblygu economaidd yng Nghymru mewn ffordd:

- sy'n gallu diwallu anghenion busnesau'n well
- hyrwyddo economi gadarnach a mwy cynaliadwy;
- cynyddu ffyniant a lles hirdymor pobl Cymru.

4.4 Bu Chwarae Teg yn rhan o'r broses hon drwy gyflwyno cyngor ysgrifenedig, bod yn rhan o Banel Cydraddoldebau AETh a chymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori

gan AETh, trafodaeth gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, digwyddiad ymgynghori gan y Sefydliad Materion Cymreig a Grŵp Arwain Newid yn yr Hinsawdd CGGC. .

4.5 Agenda o brosiectau cydgysylltiedig sy'n cyfrannu tuag at welliannau arwain a rheoli strategol yn economi Cymru yw Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli yng Nghymru (ELMS) a arweinir gan APADGOS. Bydd y prosiect gwerth £65m, sy'n cael grant ESF o £25m, yn gweithio gyda thros 40,000 o bobl ac yn helpu tua 15,000 o fentrau i ddatblygu unigolion â chymhelliant a sgiliau, a all gynnal economi wybodaeth ffyniannus a chystadleuol drwy nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys helpu'r **Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Sgiliau Arwain** i fapio'r holl rwydweithiau dysgu arwain a rheoli yng Nghymru - gan roi offeryn gweledol i helpu busnesau i gael gafael ar ddysgu rhwng cymheiriaid a 'chyflwyno'r ddadl' dros arferion arwain a rheoli arloesol. Mae'r Ganolfan yn ystyried bod Chwarae Teg yn chwarae rhan bwysig i greu rhwydweithiau ledled Cymru ac yn cyfrannu at ei gwaith.

**Cyd-destun polisi Llywodraeth y Cynulliad y tu hwnt i'r economi**

4.6 Ar wahân i'w ffocws craidd ym maes sgiliau economaidd, menter a chyflogaeth, mae Chwarae Teg yn hyrwyddo ei nodau yng nghyd-destun amrywiaeth o bolisïau a strategaethau eraill Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys:

a. Polisi Tlodi Plant
b. Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Sector Gwirfoddol
c.. Polisi Prif Ffrydio Cydraddoldeb.
ch. Polisi Cynhwysiant Cymdeithasol
d. Gwireddu'r Potensial - Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru
dd. Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru
e. Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru
f. Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd - is-grŵp
ff. Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru

**Strategaeth Tlodi Plant Cymru**

4.7 Cyfrannodd Chwarae Teg at y broses o ddatblygu dogfennau ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010) ar gyfer y strategaeth hon. Cyfarfu Chwarae Teg â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol (ar y pryd) yn 2008 wrth i'r gwaith ar gyfer y strategaeth ddechrau, ac mae wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o rôl hanfodol enillion menywod o ran sicrhau a yw teuluoedd yn codi uwchben y llinell dlodi ai peidio. Mae Chwarae Teg yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori ar y Cynllun Strategaeth a Chyflenwi ac yn y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant.

4.8 Mae dogfennau'r Strategaeth yn cynnwys ar dudalen 12 o ran 2, dri amcan strategol (yn llawn yn Atodiad 3), y mae gweithgareddau Chwarae Teg yn cyfrannu at bob un ohonynt, yn enwedig "Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel fel y gallant sicrhau cyflogaeth a thâl da".

4.9 Tri ar ddeg o nodau cyffredinol (mae tudalen 11 o ran 2 o'r papur ymgynghori ac fel y'u nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn cynnwys 2 nod sy'n berthnasol iawn i waith Chwarae Teg "Hyrwyddo a hwyluso cyflogaeth â thâl i rieni mewn teuluoedd incwm isel." a "Rhoi'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau cyflogaeth i rieni incwm isel.")

4.10 Mae Cynllun Cyflenwi'r Strategaeth (rhan 3 o'r dogfennau ymgynghori) yn enwi Chwarae Teg (ar dudalen 7) fel corff y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag ef, "Bydd Chwarae Teg yn rhoi cymorth i gyflogwyr ystyried buddiannau sy'n gysylltiedig â threfniadau gweithio hyblyg a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd." Mae tudalen 45 o'r un rhan yn nodi bod teuluoedd rhiant unigol wynebu risg benodol. Ceir rhagor o fanylion am ddogfennau'r Strategaeth yn Atodiad 3.

**Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Sector Gwirfoddol**

4.11 Mae Chwarae Teg yn elusen gofrestredig, yn gorff sector gwirfoddol, ac yn aelod o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae'n rhaid i ymwneud Chwarae Teg a Llywodraeth y Cynulliad â'i gilydd ynglŷn â chyllido Llywodraeth y Cynulliad a gweithgareddau a gyflawnir ystyried canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar gyllido'r sector gwirfoddol. Dyfynnir darnau perthnasol yn Atodiad 4.

**Cyd-destun y DU a'r UE**

4.12 Y tu hwnt i gyd-destun Llywodraeth y Cynulliad, mae nodau Chwarae Teg hefyd yn gyson â chyfeiriad polisïau a strategaethau a welir ar lefel y DU a'r UE.

4.13 Mae **cyd-destun y DU** wedi cynnwys ac yn cynnwys:

1. Papur Gwyrdd y DU 'In Work, Better Off: next steps to full employment'.
2. 'Shaping a Fairer Future' - adroddiad a chynllun gweithredu 2006 y Comisiwn Menywod a Gwaith.
3. Adolygiad o Gydraddoldeb 2007.
4. Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010.
5. Adolygiad Leitch (sgiliau) 2006.
6. DWP. "Working for Families, Working for Business" 2009

4.14 **Mae cyd-destun yr UE yn cynnwys**:

1. Agendâu Lisboa a Göteborg.
2. European Roadmap for Gender Equality.
3. Rhaglenni Gweithredol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
4. Europe 2020
5. Ymgyrch Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yr UE (cynrychiolydd Cymru)

4.15 Rhoddwyd cyfeiriad gan ddimensiwn rhywiau Strategaeth Cyflogaeth Lisboa 2010 a Road for Equality 2006-2010 y Comisiwn Ewropeaidd i helpu i sicrhau bod Cymru yn cyflawni targedau Agenda Lisboa o ran cyflogaeth ac entrepreneuriaeth i fenywod ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd newydd i Gymru. Yn benodol mae Chwarae Teg yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i geisio cyflawni'r canlyniadau ym Mlaenoriaeth 3, Thema 3, Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol mewn Cyflogaeth

4.16 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi lansio Strategaeth Ewrop 2020, sy'n pennu 5 targed, gan gynnwys: bydd 75% o'r boblogaeth 20-64 oed mewn cyflogaeth; a bydd 20 miliwn yn llai o bobl mewn perygl o fod mewn tlodi.

**A oes cyrff cymharol yn gweithredu yn y DU a thu hwnt?**

4.17 Wrth werthuso corff i Gymru gyfan, yn aml mae'n ddefnyddiol gweld a yw cymharu â chyrff cymharol mewn rhannau eraill o'r DU, neu gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru, neu rannau helaeth o Gymru, yn cynnig unrhyw wersi diddorol. Yn ystod fy ymchwiliadau methwyd â dod o hyd i unrhyw gorff cymharol yn y rhannau eraill o'r DU:

a. Ceisiodd un Gweinidog yn Llywodraeth y DU sefydlu corff cymharol yn Lloegr yn y 1990au. Ni pharhaodd, fe ymddengys, am nad oedd ganddo'r allwedd i fodolaeth Chwarae Teg - sef ar ben y cymorth ariannol a chymorth arall "o'r brig i lawr" gan y

WDA, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Swyddfa Gymreig ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, Llywodraeth y Cynulliad, nad oedd ganddo ymrwymiad "o'r gwaelod i fyny" gan nifer ac amrywiaeth mawr o fenywod yn debyg i'r hyn a roddodd fodolaeth i Chwarae Teg a'i sbarduno.

b. Ym maes menter, mae PROWESS yn asiantaeth sy'n annog ac yn cefnogi entrepreneuriaid sy'n fenywod, yn bennaf yn Lloegr. Fe'i lansiwyd yn 2002 ar ôl cais llwyddiannus i Gronfa Ddatblygu Phoenix yr Adran Masnach a Diwydiant ac mae ei wefan yn rhestru dros 120 o aelodau, y mae pob un yn Lloegr, heblaw llond dwrn. Mae ei fwrdd (yn ôl y wefan) yn cynnwys 7 aelod (un yr un o'r Alban a Gogledd Iwerddon, **dim un** o Gymru) ynghyd â thri chynghorydd.

c. Mae Women'stec yng Ngogledd Iwerddon yn galluogi menywod i ymgymryd â chyflogaeth annhraddodiadol. Mae'n sôn am 12 o gyllidwyr sector cyhoeddus ar ei wefan, yn amrywio o gyllidwyr lleol i'r UE.

ch. Corff yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a ariennir gan y sector cyhoeddus yw Asiantaeth Datblygu Busnes Menywod ac mae wedi bod yn helpu menywod yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a thu hwnt i ddechrau a thyfu busnesau ers tua 20 mlynedd.

d. Sefydlwyd Fair Play South West yn wreiddiol drwy gyllid craidd gan DfEE gyda chyllid prosiect gan Gynghorau Hyfforddi a Menter lleol. Ar adeg casglu tystiolaeth soniodd ei wefan am 2 aelod o staff a'i fod yn symud i swyddfa arall, felly dim ond drwy'r e-bost y gellid cysylltu â'r sefydliad.

dd. Mae Blackburne House Group yn sefydliad yn Lerpwl sy'n darparu hyfforddiant, addysg ac ymgynghoriaeth. Mae'n cyflogi 70 o staff gyda swyddfa eithaf mawr yng nghanol dinas Lerpwl sy'n cynnwys cyfleusterau cynadledda a meithrinfa a chanddi 30 o leoedd. Ymddengys mai hwn yw'r sefydliad mwyaf yn Lloegr sy'n canolbwyntio ar rôl economaidd menywod, er bod ganddo fodel busnes gwahanol iawn i Chwarae Teg. Cyfarfu â hwy yn eu swyddfa canol dinas (a adnewyddwyd drwy £4m o arian ymddiriedolaeth elusennol ar ddechrau'r 1990au) lle maent hwy ac eraill yn gweithredu nifer o fentrau cymdeithasol ledled Glannau Mersi, Gogledd-orllewin Lloegr a thu hwnt. Mae'r rhan fwyaf o'u hincwm yn deillio o ddarparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys rhai contractau gan y sector cyhoeddus y maent wedi tendro ar eu cyfer yn llwyddiannus.

e. Nid yw Fair Play Scotland yn bodoli mwyach.

f. Y tu hwnt i'r DU ceir sefydliadau i fenywod ond nid oes gan yr un ffocws **economaidd** Chwarae Teg sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae gan Chwarae Teg gysylltiadau Ewropeaidd. Nododd Adroddiad Gwerthuso Rhyngwladol Cyfenter y WDA fod dirprwyon ar ymweliad astudio â Sweden ym mis Tachwedd 2006 wedi nodi bod "services offered by [Chwarae Teg] in Wales were quite unique in other European States and lots of organisations have asked us to work with them."

4.18 Dof i'r casgliad nad oes rheswm amlwg pam bod Chwarae Teg (gyda swyddogaethau a/neu diriogaeth lawer ehangach nag unrhyw un o'r uchod) wedi llwyddo i ddatblygu a goroesi yng Nghymru **yn unig**), felly mae'n rhaid bod rhesymau eraill pam mae wedi para cyhyd (ar wahân i hirbarhad yr heriau y mae'n ceisio ymdrin â hwy). Credaf (ar sail trafodaethau gyda rhai o'i randdeiliaid, ei aelodau bwrdd a'i staff) mai'r gwahaniaeth yw'r cyfuniad o werthoedd, ymdrech ac ymrwymiad y staff a'r bwrdd drwy gydol ei oes ("o'r gwaelod i fyny") ynghyd â'r cymorth parhaus ("o'r brig i lawr") gan wleidyddion, cyrff swyddogol a chyllidwyr.

## 5. BETH MAE CHWARAE TEG YN EI WNEUD, BETH MAE WEDI'I WNEUD A'I FFYNONELLAU CYLLIDO

5.1 Mae Chwarae Teg yn trefnu ei gyfraniad tuag at nodau strategol drwy 5 thema:

1. Addysg, sgiliau a chyflogaeth.
2. Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.
3. Entrepreneuriaeth Menywod.
4. Polisi ac Ymchwil.
5. Seilwaith Sefydliadol.

5.2 Mae gweithgareddau **Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth** yn ymdrin â chyfranogiad menywod yn y gweithle, eu cadw yn y gweithle a'u datblygiad yn y gweithle. Mae stereoteipio rhywiol yn rolau addysg, hyfforddiant a swyddi yn ffactor mawr o hyd o ran gwahanu galwedigaethol, yn fertigol ac yn llorweddol.

5.3 Mae **Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith** yn allweddol i wella ansawdd swyddi a dileu rhwystrau i gymryd rhan yn y farchnad lafur. Mae Fframwaith Strategol Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol mewn Cyflogaeth yn hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys manteision arferion gwaith hyblyg da o ran busnesau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ymyriadau â busnesau sy'n datblygu ac yn gweithredu

5.4 Ym maes **entrepreneuriaeth menywod**, mae Chwarae Teg yn ystyried bod y bwlch mawr o hyd rhwng dynion a menywod sy'n dechrau busnes (cymhareb dynion: menywod o tua 2:1) yn gofyn am ymyriadau penodol i fenywod ar adeg cyn sefydlu busnes, sefydlu busnes a thyfu er mwyn helpu i greu economi ddeinamig, gynaliadwy.

5.5 Mae **polisi ac ymchwil** yn cefnogi'r gwasanaeth cyngor arbenigol a roddir gan Chwarae Teg i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill ar faterion ynglŷn â menywod yn economi Cymru gan gynnwys cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant, menter, polisi Ewropeaidd, gweithio hyblyg/cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a nifer o ffactorau economaidd a chymdeithasol cydgysylltiedig cymhleth, gan ddefnyddio bron 20 mlynedd o brofiad gweithredol a strategol.

5.6 Er mwyn cefnogi ei waith, mae angen **seilwaith sefydliadol** priodol ar Chwarae Teg i ddatblygu a chynnal hygrededd ymhlith rhanddeiliaid er mwyn cyflawni swyddogaethau'n llwyddiannus. Mae gwybodaeth berthnasol a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd yn hanfodol i'w waith gyda'i randdeiliaid.

### Integreiddio Gweithgareddau Ymchwil, Strategaeth, Cyngor ar Bolisi a Chyflawni

5.7 Mae'r themâu uchod yn gydgysylltiedig, mae'r ymchwil sy'n cael ei chreu neu ei cheisio gan Chwarae Teg yn llywio'r broses gwneud polisi; sydd yn ei dro yn llywio ei benderfyniadau ynglŷn â'r hyn sydd i'w flaenoriaethu ar gyfer gweithredu; pa ffynonellau posibl o gyllido prosiect i'w ceisio (am fod nodau cyllidwr y prosiect yn ddigon cyson â blaenoriaethau, arbenigedd a/neu brofiad Chwarae Teg) a pheidio â'u ceisio (am nad ydynt yn ddigon cyson â blaenoriaethau ac ati Chwarae Teg). Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau diweddar Chwarae Teg yn Atodiad 5.

5.8 Wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen i unigolion a busnesau (cyngor, gwybodaeth, hyfforddiant, ymgynghoriaeth ac ati), mae Chwarae Teg wedi datblygu

profiad, arbenigedd a diwylliant i ymdopi â'r angen am gynnydd a gostyngiad sydyn mewn adnoddau wrth i brosiectau, a chyllido prosiect, ddechrau a dod i ben. Mae'r Bwrdd a'r uwch dîm rheoli yn ceisio sefydlogrwydd drwy geisio prosiectau **priodol** a'r cyllid cysylltiedig, ond mae Chwarae Teg yn meddu ar brofiad o reoli crebachu ac ehangu lle y bo angen.

**Cenedl Hyblyg**

5.9 Nod Cenedl Hyblyg (yr ariennir dwy ran o dair ohono gan yr ESF gyda thraean o arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad gwerth £12.5m dros 6 blynedd) yw ceisio hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth a datblygiad gyrfaol, yn enwedig ymdrin â rhai o achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r camau gweithredu i gyflawni hyn yn cynnwys yn benodol:

- a Canolfan Ragoriaeth rithwir mewn Cydraddoldeb Rhywiol a Gweithio Hyblyg yng Nghymru;
- b. gweithio gyda darparwyr dysgu ac addysg, a'r Cynghorau Sgiliau Sector i fynd i'r afael â gwahanu llorweddol a fertigol yn y farchnad lafur;
- c. helpu cyflogwyr i wneud y defnydd gorau o dalent eu gweithlu, drwy ddarparu ymarferion mapio sefydliadol i helpu cyflogwyr i nodi rhwystrau i ddatblygiad, ynghyd â hyfforddiant i reolwyr mewn arferion cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a phynciau cysylltiedig;
- ch. rhoi cymorth wedi'i dargedu i gyflogwyr, drwy hyfforddiant, mentora a chymorth i weithredu gweithio o bell neu weithio hyblyg.

5.10 Nod Cenedl Hyblyg yw cynorthwyo 3,400 o gyfranogwyr yn y cyfnod hyd at 31/3/2014, y dylai 2,790 ohonynt fod yn fenywod cyflogedig neu hunangyflogedig gyda'r gweddill yn sefydliadau. Dylai 2,232 o fenywod ennill cymhwyster llawn neu rannol. Bydd yn datblygu cyfleuster, gan gynnwys porth dysgu a chymorth ymarferol wedi'i deilwra ar gyfer busnesau unigol i helpu cyflogwyr i weithredu gweithio gartref/o bell yn llwyddiannus. Y nod fydd cynyddu canran y cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro, a gwella arferion gwaith, gan gynnwys gweithio hyblyg. Ceir rhagor o fanylion am y Genedl Hyblyg, gan gynnwys targedau allbynnau a chynnydd cynnar yn Atodiad 6.

5.11 Er mwyn sicrhau arian yr UE ac arian cyfatebol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiect Cenedl Hyblyg, bu'n rhaid i Chwarae Teg ddrafftio a chyflwyno cynllun busnes manwl (roedd y ddogfen yn cynnwys 63 o dudalennau). Bu'n rhaid bodloni WEFO (sy'n darparu dwy ran o dair o'r arian) a swyddfa Arian Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu un rhan o dair o "arian cyfatebol" na fyddai WEFO yn gwneud ei gyfraniad hebddo.

5.12 Roedd yn rhaid i WEFO fodloni ei hun nid yn unig bod cynllun busnes Chwarae Teg yn dderbyniol, ond hefyd bod gan Chwarae Teg y gallu sefydliadol i ddatblygu a chyflenwi'r prosiect yn briodol, a bod Chwarae Teg ei hun yn debygol o fod yn asiant cyflawni cynaliadwy drwy gydol y cyfnod hyd at Fawrth 2014 a thu hwnt.

**Effaith Statws Elusennol**

5.13 Pan ofynnais i uwch staff Chwarae Teg yn gyntaf ynglŷn â goblygiadau ei statws elusennol, soniwyd am fuddiannau ei broses lywodraethu dda ei hun a'r hwb i'w annibyniaeth yn hytrach na buddiannau ariannol **uniongyrchol**. O'u holi ymhellach, soniwyd am y buddiannau gwirioneddol a phosibl canlynol:

a. rhyddhad ar Dreth Gorfforaeth ar elw y gellir ei briodoli i fasnach. Mae hyn yn llai pwysig ar hyn o bryd na chynt.

b. cael gafael o bosibl ar arian ymddiriedolaethau elusennol (ond nid yw'n ffynhonnell sylweddol ar hyn o bryd);

c. cred Chwarae Teg fod y fframwaith adrodd ariannol i elusennau yn fwy priodol nag eraill ar gyfer y ffrydiau cyllido a geisir ganddynt - cofnodir cyllido prosiect (sy'n gyfyngedig o ran ei ddefnydd) ar wahân i gyllid digyfyngiad.

Ffynonellau Cyllido

## Incwm

5.14 Mae ffynonellau cyllido presennol Chwarae Teg fel a ganlyn:

### a. Incwm 2008-09 - cyfanswm tua £0.999m

| Incwm Digyfyngiad | | Incwm dan Gyfyngiad | |
|---|---|---|---|
| Grant Craidd LlCC | 411,657* | Grant CGGC | 4,000 |
| Llog banc | 17,084 | Cwmpasu Sector | |
| Aelodaeth | 12,143 | Prosiect Cydraddoldeb | 23,500 |
| Ymgynghoriaeth a Hyfforddiant | 20,764 | Cenedl Hyblyg | 509,653 |
| | 461,648 | | 537,153 |

* y rhoddir £10k ohono gan AETh, y gweddill gan APADGOS

### b. Incwm 2009-10 – Cyfanswm amcangyfrifedig tua £1.839m

| **Incwm Digyfyngiad** | | **Incwm dan Gyfyngiad** | |
|---|---|---|---|
| Grant Craidd LlCC | 421,698* | Grant CGGC | 4,000 |
| Llog banc | 993 | Cenedl Hyblyg | 1,391,268 |
| Aelodaeth | 12,272 | | |
| Ymgynghoriaeth a Hyfforddiant | 8,339 | | |
| | **443,302** | | **1,395,268** |

*yn cynnwys £10 gan AETh

### c. Incwm 2010-11 – cyfanswm amcangyfrifedig tua £3m (cyllid craidd tua £0.4m)

5.15 Mae hyn yn dangos dibyniaeth fawr Chwarae Teg ar arian Llywodraeth y Cynulliad a'r UE, er mai arian prosiect Cenedl Hyblyg (2/3 o arian yr UE ac arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad) fydd yn cyfrif am lawer ohono (o leiaf tan fis Mawrth 2014). Erbyn 2008-09 o brosiect Cenedl Hyblyg roedd y rhan fwyaf o gyfanswm cyllid Chwarae Teg yn dod ac mae ei bwysigrwydd o ran cyllido wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny.

## Gwariant

## a. Y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mawrth 2009 - £945,977

| Gwariant o Incwm Digyfyngiad | £ | Gwariant o Incwm dan Gyfyngiad | £ |
|---|---|---|---|
| Costau Staff | 268,807 | Grant CGGC | 4,000 |
| Swyddfeydd (gan gynnwys rhent, ardrethi, trydan, yswiriant, storio, cynnal a chadw ac ati) | 63,390 | Prosiect Cwmpasu Cydraddoldeb Sector | 23,500 |
| | | Cenedl Hyblyg | 509,653 |
| Gorbenion (ffonau, deunydd ysgrifennu, cyfarpar swyddfa, cyfrifiaduron, ac ati) | 33,759 | | |
| Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus (gwefan) | 32,481 | | |
| Ffioedd Proffesiynol | 10,387 | | |
| Cyfanswm | **408,824** | | **537,153** |

## b. Y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mawrth 2010 - £1,848,377

| Gwariant o Incwm Digyfyngiad | £ | Gwariant o Incwm dan Gyfyngiad | £ |
|---|---|---|---|
| Costau Staff | 304,098 | Grant CGGC | 4,000 |
| Swyddfeydd (gan gynnwys rhent, ardrethi, trydan, yswiriant, storio, cynnal a chadw ac ati) | 65,127 | Cenedl Hyblyg | 1,391,268 |
| Gorbenion (ffonau, deunydd ysgrifennu, cyfarpar swyddfa, cyfrifiaduron, ac ati) | 44,462 | | |
| Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus (gwefan) | 21,926 | | |
| Ffioedd Proffesiynol | 17,496 | | |
| Cyfanswm | **453,109** | | **1,395,268** |

## c. Y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mawrth 2011 - amcangyfrif tua £3m

5.16 Felly mae Cenedl Hyblyg wedi tyfu'n gyflym ers 2008 ac mae'n cyfrif am ran helaeth o gyllid a gwariant Chwarae Teg - rhywbeth a fydd yn debygol o barhau tan ddechrau 2014.

**"Trosoledd" a sicrhawyd gan Chwarae Teg ers 2000 o ran cyllido prosiect**

5.17 Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyllid craidd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i Chwarae Teg, mae'n briodol ystyried cyllido prosiect, oherwydd oni

bai bod bodolaeth Chwarae Teg yn hygred ac yn gynaliadwy (yn annhebygol iawn pe bai cyllid craidd wedi dod i ben) mae'n sicr bron na fyddai'r prosiectau canlynol wedi cael eu cymeradwyo na'u cyflenwi'n foddhaol:

**Prosiectau y mae Chwarae Teg wedi bod yn gyfrifol am eu cynllunio a'u cyflawni**

**A. Prosiectau a Ariennir gan yr UE**

| | |
|---|---|
| Menter Menywod Cymru yr ERDF<br>Hyrwyddo entrepreneuriaeth menywod (2001-2006) | £3,982,560 |
| ERDF – Rhieni Unigol (rhan o Potentia (2001-2007) | £1,205,305 |
| ESF – Ready, SET, Go Challenging occupational<br>Segregation (2004-2007) | £ 567,904 |
| BBCh: Prosiect Cydraddoldeb (2000-2003):<br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Yn y Gweithle. | £3,512,852 |
| Cenedl Hyblyg ESF – datblygiad gyrfaol mewn cyflogaeth<br>(2008-2014) (ac yn parhau gyda'r rhan fwyaf eto i'w gwario) | £12,534,361 |
| EQUAL – Close the Pay Gap | £150,430 |
| **Is-gyfanswm yr UE** | **£21,953,412** |

**B. Prosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Prosiect Peilot Cydbwysedd rhwng Gwaith a Bywyd<br>(Sector Cyhoeddus) (2002-2005) | £300,000 |
| Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith mewn Ysgolion (2005-2007) | £120,000 |
| Cronfa Her Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith (2000-2006) | £157,475 |
| Strategaeth Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith<br>yng Nghymru (2005-2008) | £388,022 |
| Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i<br>Gynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| Cynghorwyr Busnes Llywodraeth/Cyffredinol (2005-07) | £38,900 |
| Cronfa Cydraddoldebau Sector –<br>Ymchwil Sgiliau Sector (2008-09) | £40,000 |
| Potential Lone Parents Consultancy Training (2006-2007) | £23,930 |
| **Is-gyfanswm Llywodraeth y Cynulliad** | **£1,068,327** |

**CYFANSWM CYLLIDO PROSIECT ERS 2001** **£23,021,739**

**Mewnbynnau Anariannol a sicrheir gan Chwarae Teg**

5.18 Mae cydberthnasau a rhwydweithiau Chwarae Teg yn creu cryn gyfraniad gan unigolion drwy wirfoddoli a chan sefydliadau drwy nawdd mewn da:

a. **Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**. Un ar ddeg o unigolion, pob un mewn uwch swyddi ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys CBI, awdurdodau lleol ac ati. Pob un yn wirfoddolwr; sydd â'r hawl i wneud cais am dreuliau teithio, ond mae sawl un yn dewis peidio â gwneud hynny. Maent yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn am 3-4 awr (heb gynnwys amser paratoi ac amser teithio), ac yn derbyn aseiniadau ad hoc yn ôl yr angen, gan gynnwys digwyddiadau cyhoeddus.

b. Mae'r **Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau** yn cynnwys 3**-5 o** Ymddiriedolwyr ac mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae KPMG yn darparu swyddfa a lluniaeth i'r Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau, ac mae hefyd wedi'u darparu ar gyfer y Bwrdd.

c. **Rhwydweithiau Hyfforddiant ac Addysg**. Tri rhanbarth: De-orllewin, De-ddwyrain a'r Gogledd. Cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae pob un yn cyfarfod 2-3 gwaith y flwyddyn i drafod materion sy'n ymwneud â hyfforddiant ac addysg ôl-14. Mae'r cyfarfodydd yn para 3.5 awr (heb gynnwys amser teithio). Mae'r cyflwynwyr yn cyfrannu o'u hamser, yn ddi-dâl. Cyflwynwyr diweddar Charles Middleton (Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru) a Dr Barrie Kennard (Arwain a Rheoli Cymru/Ysgol Fusnes Prifysgol Cymru). Mae'r aelodau'n cynnwys: y sector cyhoeddus, cyrff statudol, addysg gymunedol, Awdurdodau Addysg Leol, Cynghorau Sgiliau Sector, Sefydliadau AB/AU, y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Gwasanaethau Cyflogaeth, darparwyr hyfforddiant yn y sector preifat, cyrff yn y sector gwirfoddol, ysgolion uwchradd, dysgu seiliedig ar waith, cynrychiolwyr dysgu undebau. Fel arfer darperir lleoliadau a lluniaeth am ddim i Chwarae Teg.

ch. **Rhwydweithiau Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.** Tri rhanbarth. Trafodir materion Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith. Mae cyflwynwyr diweddar wedi cynnwys ffigyrau proffil uchel megis Viv de Feu (Partner, Capital Law), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys cyflogwyr mawr megis: Ford Bridgend, DVLA, Ymddiriedolaethau'r GIG, yr Heddlu, Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol.

d. **Fforwm Menywod Chwarae Teg.** Fforwm traws-sector o 15 o fenywod sy'n cyfarfod o bryd i'w gilydd i nodi, llunio a datblygu materion allweddol sy'n effeithio ar fenywod yn economi Cymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Mawrth 2009 ac mae wedi cynnal pum dadl ar faterion sy'n effeithio ar fenywod yn y gweithle neu wrth chwilio am waith. Canolbwyntiodd y ddadl ddiwethaf ar bapur ymgynghori Llywodraeth y DU, Meeting the Low Carbon Skills Challenge. Caiff canfyddiadau eu cynnwys yn ymateb Chwarae Teg i'r ymgynghoriad. Mae'r fforwm yn cynnwys menywod o'r sector preifat yn bennaf, gan amrywio o BBaChau ac unig fasnachwyr i gorfforaethau mawr y DU a chorfforaethau rhyngwladol, gan gynnwys adeiladu, peirianwaith, gwasanaethau ariannol a'r gyfraith. Cynrychiolir y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol hefyd.

dd. **Dadleuon Diwrnod Rhyngwladol y Merched**. Yn 2010, cynhaliodd Chwarae Teg ddadleuon yn y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin. Daeth tua hanner y cyfranogwyr o'r sector preifat, chwarter o'r sector cyhoeddus (heb gynnwys AU/AB) a'r gweddill o'r sector gwirfoddol ac AU/AB. Canolbwyntiodd y dadleuon ar bynciau a oedd yn berthnasol i fenywod yn yr economi a chyhoeddwyd y canlyniadau ar wefan Chwarae Teg a chânt eu defnyddio i lywio gwaith polisi a chynghori.

e. **Rhwydwaith Menywod sy'n Rheolwyr (WIM).** Cynorthwyodd Chwarae Teg lansiad rhwydwaith WIM yn y De-ddwyrain ym mis Medi 2008 ac mae bellach yn cadeirio'r rhwydwaith ac yn rhoi'r rhan fwyaf o'i gymorth gweinyddol. Cronfa ddata o tua 500 o fenywod. Mae cyfarfodydd yn parhau am hyd at dair awr, gan gynnwys amser i rwydweithio, siaradwyr ysbrydoledig a thrafodaethau datblygu. Mae'r cyfranogwyr yn **amrywio ar ran lefel swydd** ac yn cynrychioli amrywiaeth eang o sectorau. Cynhelir pum cyfarfod ffurfiol y flwyddyn, ynghyd â dau ddigwyddiad cymdeithasol. Mae digwyddiadau ffurfiol yn cynnwys un neu fwy o siaradwyr. Ymhlith y siaradwyr diweddar roedd Barbara Wilding, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar y pryd; Amanda West, Pennaeth Arloesi yn Thompson Reuters; Gill Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth y Cynulliad; Steph Chamberlain, Rheolwr Datblygiadau Busnes - y DU ac Iwerddon, Esso Retail. Mae lleoliadau wedi cael eu darparu am ddim ar gyfer y digwyddiadau diweddar, fel arfer gyda lluniaeth, gan gynnwys cyfraniadau gan Westy Holland House, Gwesty'r Hilton, Cwnstabliaeth De Cymru a Phrifysgol Morgannwg. Mae Pwyllgor y rhwydwaith sydd â 13 o aelodau, yn cyfarfod tua 6 gwaith y flwyddyn.

Mae aelodau'r pwyllgor hefyd yn gweithredu fel hwyluswyr yn ystod digwyddiadau, trafodaethau a gweithdai. Soniodd rhai y cyfarfûm â hwy pa mor groesawgar a chefnogol oedd y rhwydwaith hwn iddynt fel rheolwyr neu entrepreneuriaid cymharol iau.

f. **Grŵp mentora menywod mewn uwch swyddi**. Cynhaliodd Chwarae Teg ddau gyfarfod a arweiniodd at gynllun peilot o fewn rhwydwaith WIM i ymchwilio i'r galw am fentora neu fathau eraill o gymorth i fenywod ar lefelau uwch.

ff. **Aelodaeth**. Ar ei anterth, roedd ffioedd aelodaeth yn cynhyrchu incwm o fwy na £100,000 y flwyddyn. Cyn ac yn ystod y dirwasgiad, canfu Chwarae Teg nad oedd modd mynnu ffioedd aelodaeth sylweddol heb gynnig gwasanaethau sylweddol i aelodau, ac mae wedi ailgynllunio ei gynllun aelodaeth. O dan y cynllun newydd, canolbwyntir ar ennyn cefnogaeth i nodau Chwarae Teg, yn hytrach na chynhyrchu incwm. Mae lefel yr incwm wedi parhau i fod yn fwy na £12,000 hyd yn oed yn ystod y dirwasgiad, ac mae'n debygol o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod wrth i'r cynllun newydd gael ei gyflwyno. Mae'r aelodaeth amrywiol yn cynnwys sefydliadau o'r canlynol: y sector preifat, yn enwedig gweithgynhyrchu a hamdden, Sefydliadau AB/AU, yr Heddlu, Cymdeithasau Tai, y Ganolfan Byd Gwaith, DVLA, Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru, yn ogystal ag unigolion.

g. **Digwyddiadau**. Mae digwyddiadau diweddar mawr a gafodd sylw da (am ddim) yn y wasg yn cynnwys:

i. **Better Balance Better Business**. Yng Nghaerdydd 2007 **100** o gynadleddwyr o bob sector, Digby Jones, Cyfarwyddwr y CBI ar y pryd, oedd y prif siaradwr.

ii. **Lansio Cenedl Hyblyg**. Ym mis Chwefror 2009 lansiwyd Cenedl Hyblyg ar yr un pryd yn Neganwy ac yng Nghaerdydd. Roedd Jane Hutt (y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd) a Russell Lawson, (Ffederasiwn Busnesau Bach) ymhlith y siaradwyr ynghyd â chyfranogwyr o brosiectau blaenorol Chwarae Teg. Roedd 80 yn bresennol o amrywiaeth o sectorau.

iii. **Menywod yn Ysbrydoli Menywod.** Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2010, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Daeth pobl o sawl sector gan gynnwys llawer o gyfranogwyr Cenedl Hyblyg o'r De a'r Gorllewin. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Hayley Parsons, Prif Weithredwr, Gocompare.com; Denise Morgan a Jane Hay, 4ward Development; Bethan Jenkins AC; Yr Athro Charlotte Williams, awdur Sugar and Slate. Dywedodd nifer o fenywod o gwmnïau bach a mawr wrthyf pan gefais drafodaethau gyda hwy pa mor ysbrydoledig oedd y digwyddiad hwn iddynt hwy,

iv. **Trafodaeth bord gron**. Ym mis Mehefin 2010 cynhaliodd Chwarae Teg drafodaeth bord gron ar y cyd a CBI Cymru gyda Helen Alexander, Llywydd y CBI. Roedd y cyfarfod, drwy wahoddiad, yn cynnwys pobl fusnes mewn uwch swyddi yng Nghymru.

ng**.** Mae'r **cyflwyniadau** a roddwyd gan staff Chwarae Teg yn cynnwys rhwydwaith Merched GE; Cinio i Ferched Siambr Fasnach Abertawe; Clwb Busnes Torfaen; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol/Sefydliad Bevan "Unequal Wales"; rhwydwaith Merched Llywodraeth y Cynulliad; Digwyddiad Blynyddol Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-13; Partneriaethau Cyflogaeth Lleol yn y Sector Cyhoeddus (Sut y gallant hyrwyddo Her Amrywiaeth); digwyddiad APADGOS ar y cyd â chynghorwyr HRD a Datblygu'r Gweithlu AETh ym mhob un o'r tri rhanbarth; Sefydliad Materion Cymreig; Fforwm Cymru Gyfan Undeb Prospect; Yn Awyddus i

Weithio a sefydliadau partner; Lansiad Prifysgol Casnewydd o Gynllun CELT; Dysgu Hyblyg ar gyfer Cyflogadwyedd a Senarios Cymunedol; Cinio a Dysgu Llywodraeth y Cynulliad (Gogledd a De Cymru)

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED

6.1 Mae'r adran yn awgrymu ac yn ystyried materion sy'n ymwneud â'r canlynol: i ba raddau y mae Chwarae Teg yn cyflawni ei amcanion ac i ba raddau y gall wneud hynny; ei effeithiolrwydd; a'i effeithlonrwydd, sydd oll yn debygol o fod yn ffactorau ym mhenderfyniad Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â chyllid Chwarae Teg a'i pherthynas â Chwarae Teg yn y dyfodol. Mae hefyd yn ystyried y gwerth y mae Chwarae Teg yn ei ychwanegu at gyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad gyda chyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad; cost-effeithiolrwydd; effeithiau cynnal neu ostwng cyllid craidd; y ddadl economaidd dros gyllid craidd sy'n adlewyrchu methiant y farchnad; i ba raddau y mae cyllid Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni canlyniadau "di-fuddiant" (hy byddent wedi digwydd sut bynnag) yn hytrach na chanlyniadau ychwanegol; sgil-effeithiau buddiol ac annymunol neu ganlyniadau anfwriadol; effaith ar ganlyniadau/allbynnau. Y materion a ystyrir isod yw:

a. Pa mor bwysig yw gweithgareddau (tebygol ac arfaethedig) Chwarae Teg i flaenoriaethau cyfredol a phosibl Llywodraeth y Cynulliad?
b. Sut y mae Chwarae Teg wedi helpu ei randdeiliaid?
c. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd
ch. Pa gyfleoedd sydd i Chwarae Teg ehangu amrywiaeth ei ffynonellau cyllido/ A beth fyddai goblygiadau mwy o gyllid o'r sector preifat yn benodol?
d. Pa gyrff cymharol sy'n bodoli mewn rhannau eraill o'r DU, os o gwbl, a pha wersi a gynigiant o ran ystyried cymorth Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg?
dd. Pa gyflenwyr posibl eraill sy'n bodoli o ran yr hyn y mae Chwarae Teg yn bodoli i'w gyflawni?
e. Pa gyfleoedd sy'n debygol o wynebu Chwarae Teg a fydd yn debygol o fod o ddiddordeb i Lywodraeth y Cynulliad?
f. Pa heriau mawr a gwendidau a wynebir gan Chwarae Teg, a fyddai'n amharu'n sylweddol ar ei allu i gyflawni dros Lywodraeth y Cynulliad?
ff. Materion eraill sy'n codi mewn perthynas â chyllid craidd ar ôl mis Ebrill 2001:
   i. materion sy'n ymwneud â ph'un a ddylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i ddarparu cyllid craidd mewn egwyddor;
   ii. y gydberthynas rhwng cyllid craidd a chyllido prosiect;
   iii. hyd y cytundeb cyllid craidd nesaf;
   iv. materion o ran cymorth gwladwriaethol yr UE
   v. materion eraill

**Pa mor bwysig yw gweithgareddau (tebygol ac arfaethedig) Chwarae Teg i flaenoriaethau cyfredol a phosibl Llywodraeth y Cynulliad?**

6.2 Yn ei pholisïau economaidd (ee y Ddogfen Ymgynghori ar Raglen Adnewyddu'r Economi) mae Llywodraeth y Cynulliad yn pwysleisio mwy ar y ffaith mai BBaChau a mentrau newydd sy'n cynnig y gobaith gorau ar gyfer meithrin economi gryf. Er bod llawer o waith Chwarae Teg yn y gorffennol wedi bod yn berthnasol i BBaChau ac i'r rhai sy'n sefydlu busnesau newydd, yn y sector cyhoeddus, y sector nid-er-elw a'r sector corfforaethol mwy y mae llawer o'r rhai sydd wedi cael budd uniongyrchol o waith Chwarae Teg. Mae'r cydbwysedd hwn yn newid, gan fod targed dangosol Cenedl Hyblyg (20% yn y sector cyhoeddus, gyda 60% ar gyfer y sector preifat ac 20% ar gyfer y sector gwirfoddol) yn cyfyngu ar nifer y menywod unigol yn y sector cyhoeddus sy'n gallu cymryd rhan. Mae Chwarae Teg wedi cyfrannu yn y sector BBaChau drwy'r Prosiect Cydraddoldeb BBaChau (1998-2003). Mae i Cenedl Hyblyg ffocws cadarn ar BBaChau, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth a datblygu sgiliau. Mae Adran 5 o'r adroddiad


hwn yn awgrymu y gellir gweld bod gwaith Chwarae Teg yn cyfrannu i nifer o flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys:

a. cyfle i bawb gael safon byw resymol;
b. gwella lefelau sgiliau mewn ffordd wedi'i thargedu;
c. mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau;
ch. menter (mae menywod fel cyfran yn sefydlu llawer llai o fusnesau newydd na dynion);
d. cefnogi'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r UE, a mynediad effeithiol i arian yr UE a'r defnydd effeithiol ohono;
dd. tlodi plant;
e. cynhwysiant cymdeithasol;
f. mynd i'r afael â thrais yn y cartref (oherwydd, dyweder, mwy o hyder ac annibyniaeth);
ff. prif ffrydio cydraddoldeb drwy ddatblygu a chyflawni polisïau economaidd a sgiliau (mae tegwch i fenywod yn treiddio drwy holl waith Chwarae Teg).

6.3 Yn nhermau bras **tybiannol** mae prif gyfraniad Chwarae Teg i'w weld yn "Ardal B" yn y diagram isod lle:

**1.** – Lefel uwch dybiannol o wireddu potensial sgiliau menywod a dynion.
**2.** – Lefel dybiannol gyfredol dynion o wireddu eu potensial sgiliau.
**3.** – Safle tybiannol cyfredol menywod (hy yn is na safle dynion, gan adlewyrchu anghydraddoldeb).

Cyfanswm **yr ardal dywyll (A + B)** = y bwlch rhwng lefelau sgiliau tybiannol cyffredinol cyfredol menywod a dynion a lefelau sgiliau tybiannol uwch posibl i'r ddau ryw.
**A** –ardal dybiannol sy'n cael ei lleihau gan ymyriadau "niwtral o ran rhyw" i wella sgiliau
**B** – ardal dybiannol ar gyfer ymyriadau **penodol** (ee cymorth Chwarae Teg) i wella lefelau sgiliau menywod




6.4 Mae buddsoddi mewn lleihau maint "Ardal B" yn **weithredu cadarnhaol** y gellir ei gyfiawnhau (ac o'i gymharu â'r symiau a fuddsoddir yn "Ardal A" yn fach iawn) er mwyn helpu menywod lle maent o dan fantais gyffredinol o'u cymharu â dynion o ran canlyniadau sgiliau a/neu beidio â chael gafael ar ddarpariaeth fwy cyffredinol neu wynebu rhwystrau megis diffyg gweithio hyblyg neu gydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, diffyg hunanhyder, ac ati. **Yn fras iawn**, gall cyfraniad Chwarae Teg (yn y cyd-

destun hwn) helpu i leihau "Ardal B", hy gweithredu cadarnhaol i hybu cyfraniadau menywod i economi Cymru, ac i'w dyfodol eu hunain a dyfodol eu teuluoedd.

6.5 Mae'r ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r **bwlch cyffredinol** ("A" + "B") wedi'u hanelu i raddau helaeth at ymdrin (i'r ddau ryw yr un peth) â'r bwlch a gynrychiolir gan "A" yn y diagram, tra bod darpariaeth gymharol fach yn mynd i'r afael â'r bwlch a gynrychiolir gan "B".

6.6 Felly mae Chwarae Teg wedi bod yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau polisi Llywodraeth y Cynulliad ac yn parhau i wneud hynny. Mae rhannau diweddarach o'r adran hon yn ceisio ystyried pa mor dda y gwnaed hynny a beth yw cyfraniad Chwarae Teg i Gymru a beth allai fod.

6.7 Fy nghasgliad **bras** yw bod y rhan fwyaf o gyfraniadau Chwarae Teg os nad y cyfan mewn meysydd sy'n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad, gan eu bod yn weithredu cadarnhaol sy'n ymwneud â gwella sgiliau, statws economaidd a menter a chyfraniad menywod mewn ffyrdd nad yw polisïau na darpariaeth niwtral o ran rhyw yn cyflawni'n llawn hyd yma.

**Sut y mae Chwarae Teg wedi helpu ei Randdeiliaid?**

6.8 Mae prif randdeiliaid uniongyrchol Chwarae Teg wedi cael eu helpu mewn amryw ffyrdd:

- Llywodraeth y Cynulliad – drwy gynnig cyngor, arweiniad, sefydlu a threfnu rhwydweithiau ac ati, fel yr amlinellir mewn cynlluniau gweithredu blynyddol ac adroddiadau chwarterol.
- Helpodd busnesau unigol (arweinwyr, rheolwyr, timau) gyda'r gwaith o ddatblygu a gweithredu diwylliannau, polisïau, arferion gwaith ac ati sy'n galluogi ffyrdd newydd o weithio sy'n **gwella** eu gweithrediadau busnes yn ogystal â bywydau gwaith eu cyflogeion, yn fenywod neu'n ddynion, ar bob lefel ac yn benodol eu galluogi i ddenu, cadw, cymedroli a hyrwyddo cyflogeion sy'n fenywod.
- Cyflogeion ac entrepreneuriaid benywaidd unigol sydd wedi cael cyfle i gael hyfforddiant a chyngor a rhwydweithiau cymheiriaid gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol i fenywod, ee hyder a chyfalaf cymdeithasol.
- Sefydliadau sy'n rhyngweithio â Chwarae Teg gan rannu ei wybodaeth, defnyddio ei rwydweithiau a/neu gyhoeddiadau ac ati yn eu gwaith (ee Prifysgolion, Cynghorau Sgiliau Sector, CBI, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngres yr Undebau Llafur ac ati)

**Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd**

6.9 **Effeithlonrwydd**, o ran sefydliad sy'n cael ei gyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad mae'n fater pwysig i Lywodraeth y Cynulliad. Cyfyngedig yw'r cyllid a gaiff Chwarae Teg heblaw am gyllid Llywodraeth y Cynulliad (ac eithrio arian yr UE) felly byddai baich unrhyw aneffeithlonrwydd yn cael ei ysgwyddo gan Lywodraeth y Cynulliad yn bennaf. Oherwydd natur yr hyn y mae'r cymorth i Chwarae Teg yn canolbwyntio arno, nid yw'n hawdd cael asesiadau manwl gywir o'i effeithlonrwydd. Mae dangosyddion sy'n gadarnhaol yn hyn o beth yn cynnwys:

a. **Proffesiynoldeb** yn y ffordd y mae'n ymgymryd â thasgau. Heb ysgogiad, defnyddiwyd yr union air gan randdeiliaid o amrywiaeth eang o gefndiroedd i ddisgrifio Chwarae Teg, ynghyd â geiriau fel "dibynadwyedd" a "os dywedan nhw eu bod yn mynd i wneud rhywbeth, fe wnân nhw hynny". Synhwyrais hynny hefyd yn y ffordd agored broffesiynol iawn yr ymatebodd pob aelod o'r bwrdd a'i staff y cyfarfûm â hwy i'm cwestiynau a'm ceisiadau.

b. **Blaengynllunio a meddwl ymlaen.** Mae Bwrdd Chwarae Teg a'i Uwch Dîm Rheoli eisoes yn ystyried senarios posibl a strategaethau ymadael ar gyfer diwedd prosiect Cenedl Hyblyg, gan gynnwys y senarios gwaethaf posibl a fyddai'n golygu colli y rhan fwyaf o swyddi yn Chwarae Teg. Mae ymagwedd strategol a gofalus o'r fath tuag at y defnydd o arian cyhoeddus yn bennaf yn argoeli'n dda o ran sicrhau gwerth am arian.

c. **Dulliau cydnabyddiaeth**. Mae gan Chwarae Teg broses hyddysg a ffurfiol o bennu lefelau cyflogau. Nodir lefelau cyfredol cyflogau yn Atodiad 6. O'r 15 o staff a ariennir drwy gyllid craidd yn bennaf, mae 9 yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn, a dim ond 2 sy'n ennill mwy na £38,000. Mae gan y cynllun pensiwn cyfrannol **gyfraniad cyflogwr** o 6% (i lawer o gynlluniau yn y sector cyhoeddus mae'n nes at 14%). Nid oes awgrym bod hwn yn sefydliad sy'n defnyddio arian cyhoeddus i dalu cyflogau a buddiannau hael. Mae'r holl aelodau hynny o staff y deuthum ar eu traws wedi gwneud argraff arnaf.

ch. **Effaith ar effeithlonrwydd eraill.** Mae'n amlwg o'r sylwadau gan gyllidwyr craidd APADGOS ac AETh (a WEFO (mewn perthynas ag arian yr UE), bod y ffordd y mae Chwarae Teg yn ymdrin â gwneud achosion busnes a pharatoi adroddiadau cyfnodol ar weithgarwch, gwariant ac ati yn golygu nad yw Chwarae Teg, o'i gymharu ag eraill, yn rhoi baich ychwanegol diangen ar adnoddau'r prif gyrff sy'n ei gyllido.

6.10 Gellir gwerthuso **effeithiolrwydd** yr hyn a gyflawnir drwy'r cyllid craidd mewn sawl ffordd:

a. cyflawni targedau y cytunwyd arnynt;
b. sylwadau rhanddeiliaid;
c. sylwadau o'r tu hwnt i Gymru, a'r tu hwnt i'r DU.

6.11 Mae Chwarae Teg wedi bod yn dda iawn o ran cyflawni targedau a bennwyd ar gyfer ei gyllid craidd a'i waith prosiect. Roedd rhanddeiliaid o bob math yn gadarn eu barn o ran effeithiolrwydd Chwarae Teg - gwnaed sylwadau fel "proffesiynol iawn", "dibynadwy", "os dywedan nhw eu bod yn mynd i wneud rhywbeth, fe wnân nhw hynny", yn aml.

6.12 Yng Nghymru a thu hwnt ceir arwyddion o farn eraill am effeithiolrwydd Chwarae Teg. Mae Chwarae Teg yn cadw ffolder o sylwadau canmoliaethus ac roedd yn gallu rhannu sylwadau gan sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt gyda mi, er enghraifft, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan, Canolfan Ansawdd Cymru, Prifysgol Morgannwg, Rhwydwaith Menter Merched ac ymwelwyr o'r tu allan i Gymru (ee Llywodraeth Leol yn Norwy, Addysg Uwch yn y Ffindir), yn ogystal â nifer o swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn ychwanegol at y sylwadau cadarnhaol iawn a wnaed gan bron bawb y cefais drafodaethau gyda hwy (nid oedd y rhai na wnaethant sylwadau o'r fath yn gwneud sylwadau negyddol, dim ond dweud mai

cyfyngedig oedd eu cyswllt â Chwarae Teg - ac mewn lleiafrif sylweddol o achosion yn dweud eu bod yn dymuno mwy o gyswllt).

6.13 Os cyfyd unrhyw achos pryder yn hyn o beth y pryder yw nad yw Chwarae Teg yn manteisio i'r eithaf ar y gwerth y mae'n ei ychwanegu iddo'i hun ac i Lywodraeth y Cynulliad, oherwydd er bod hynny'n hysbys nid yw mor hysbys ag y gallai fod.

**Y cyfle sydd gan Chwarae Teg i ehangu ei ffynonellau cyllido, a rhai materion cysylltiedig**

6. 14 Dengys paragraph 5.14 pa mor gyfyngedig yw cyllidwyr Chwarae Teg. O drafodaethau gyda rhanddeiliaid yn y sector preifat mae'n amlwg mai prin fydd cyfleoedd Chwarae Teg i gael arian ychwanegol gan y sector preifat yn y dyfodol rhagweladwy (ond nid yn amhosibl).

6.15 Mae prosiect cyfredol Chwarae Teg, Cenedl Hyblyg, yn un o brosiectau cydgyfeirio'r UE, sydd wedi'i dargedu'n benodol at ardaloedd Amcan 1 Cymru. Golyga hyn na all Chwarae Teg ymgymryd â gwaith tebyg yn y maes hwn. Ni all ychwaith gael bathodyn na sefydlu cynlluniau 'nod barcud' oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag arian yr UE ar gyfer Cenedl Hyblyg. Ni chaniateir iddo gynhyrchu incwm o enillion prosiectau o'r fath, ac felly mae'n osgoi gweithgareddau eraill y gellid canfod eu bod yn gwrthdaro â hwy yn ardal gydgyfeirio Cymru.

6.16 Roedd rhan sylweddol o incwm cyfyngedig (yn bennaf o aelodaeth, ymgynghoriaeth a hyfforddiant) Chwarae Teg yn arfer dod o'r sector cyhoeddus (hy heblaw am Lywodraeth y Cynulliad a'r UE). Yn ddealladwy ddigon daw llai o arian o'r ffynhonnell hon am fod gan lawer o gyrff cyhoeddus mawr bolisïau cydraddoldeb (rhai a ddatblygwyd gyda chymorth Chwarae Teg) ac ychydig o adnoddau mewnol. Hefyd mae eu cyllid o dan fwy o bwysau nag a welwyd ers degawdau. Fodd bynnag, ymddengys fod rhai cyrff yn y sector cyhoeddus wedi bod yn fodlon defnyddio adnoddau Chwarae Teg yn fwy diweddar am ddim neu gost fach, wrth i'w cyllidebau eu hunain fynd yn dynnach a pharhau i fynd yn dynnach. Roedd rhai o bosibl wedi dechrau defnyddio gweithgareddau Chwarae Teg "yn ddigyfraniad" i raddau helaeth neu'n gyfan gwbl, gan gynnwys ei brosiectau (ee hyfforddiant "am ddim" yn hytrach na thalu am hyfforddiant eu staff eu hunain).

6.17 Bydd hyn yn digwydd ar raddfa lai wrth i Chwarae Teg barhau i roi llai o ffocws ar y sector cyhoeddus dros y pedair blynedd nesaf, ond mae angen i Chwarae Teg a Llywodraeth y Cynulliad sicrhau eu hunain nad yw Chwarae Teg yn darparu gwasanaethau (ee rhai mathau o ddatblygu staff a rheolwyr) i gyrff mawr yn y sector cyhoeddus y dylai'r cyrff hynny dalu amdanynt. Mae Chwarae Teg yn rhoi ffocws newydd ar BBaChau, **yn gyffredinol** (o ystyried o ble mae twf economaidd ac felly gyfleoedd am swyddi - yn debygol o ddeilio yn yr ychydig flynyddoedd nesaf) ac oherwydd ffocws Cenedl Hyblyg ar y sector preifat. Yn anaml iawn os o gwbl y byddai BBaChau a'r rhai sy'n sefydlu busnesau newydd yn gallu talu ffioedd am wasanaethau Chwarae Teg a fyddai'n talu costau Chwarae Teg neu'n barod i wneud hynny, er bod rhywfaint o botensial ar yr ymylon.

6.18 Mae Chwarae Teg yn edrych tuag allan i raddau helaeth ac mae'n gogwyddo tuag at ganlyniadau. Nid yw wedi nodi ei oroesiad ei hun fel ei flaenoriaeth bennaf. Mae'n talu cyflogau cymedrol, priodol (am elusen a ariennir drwy arian cyhoeddus yn bennaf) i'w staff. Mae ei ddiddordeb mewn ymchwil a'i ymwneud ag ymchwil, ei dosbarthu a'i defnyddio wedi peri iddo newid ffocws sawl gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ystod

ei flynyddoedd cynnar roedd yn arloesi yng Nghymru o ran ei ddarpariaeth ymarferol o rai mathau o ofal plant, gyda chymorth cyllido prosiect, cyn i eraill ehangu darpariaeth clybiau ar ôl ysgol ac ati a symudodd Chwarae Teg ei ffocws i arloesi mewn meysydd eraill.

6.19 Nid yw'n ceisio cyllido prosiect **dim ond** am ei fod ar gael o bosibl hy os nad oedd gweithgarwch y prosiect yn ddigon cyson â'i flaenoriaethau ei brofiad na'i arbenigedd ei hun. Mae'r ymagwedd hon yn golygu bod Chwarae Teg yn gweithredu'n annibynnol, rhywbeth y mae ei randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, yn ei werthfawrogi'n fawr wrth ystyried a defnyddio ei gyngor.

6.20 Er mai arian cyhoeddus yw bron y cyfan o arian Chwarae Teg, daw o nifer o ffynonellau yn Llywodraeth y Cynulliad, yr UE a ffynonellau eraill. Golyga hyn fod **nifer** o wleidyddion, swyddogion, llunwyr polisi, deiliaid cyllidebau ac ati yn y sector cyhoeddus yn cydnabod gwerth cyllido Chwarae Teg mewn un ffordd neu'i gilydd, gan gynnwys:

- APADGOS - y rhan fwyaf o'i gyllid craidd
- AETh - cyfraniad bach i'w cyllid craidd
- WEFO - dwy ran o dair o arian Cenedl Hyblyg
- WMT - un rhan o dair o arian cyfatebol Cenedl Hyblyg

Pa gyrff cymharol eraill sy'n bodoli ai peidio yn y DU? Pa wersi a gynigiant wrth ystyried cymorth Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg?

6.21 Fel y disgrifir yn Adran 5, nid oes sefydliad tebyg i Chwarae Teg yng ngweddill y DU. Mae'r sefydliad mwyaf y llwyddais i ddod o hyd iddo yn Lloegr (Blackburne House) yn fenter lawer mwy masnachol, sef casgliad o fentrau cymdeithasol yn bennaf. Fel Chwarae Teg, mae'n gwneud argraff, ond mewn ffordd lawer mwy masnachol, er ar sail gwerthoedd cadarn ac ymdrech fawr gan ei staff allweddol ers iddo gael ei sefydlu yn 1984. Mae wedi cael cryn dipyn o arian cyhoeddus dros y degawdau, a miliynau o bunnau oddi wrth ymddiriedolaethau elusennol (yn enwedig yn y 1990au). Mae ganddo safle gwerthfawr yng nghanol y ddinas y mae ei fusnesau a'i denantiaid yn darparu peth o'i incwm a'i roddion. Yn olaf, mae prif farchnad Blackburne, sef Gogledd-orllewin Lloegr, yn llawer mwy poblog na Chymru ac mae yno lawer mwy o bencadlysoedd cwmnïau mawr, yn ogystal â CMC llawer uwch y pen.

6.22 O ystyried Chwarae Teg a'r sefyllfa o ran cyrff (heblaw am rai lleol) sy'n canolbwyntio ar o leiaf rai agweddau ar fenywod yn yr economi y tu allan i Gymru awgrymwyd:

a. pwysigrwydd ymdrech "o'r gwaelod i fyny" o fewn y sefydliad ei hun, ochr yn ochr ag annibyniaeth, am ei gynaliadwyedd y tu hwnt i'r tymor byr;
b. rhan ganolog arian cyhoeddus i greu a chynnal yr holl gyrff a ystyriwyd, ond natur anghynaliadwy sefydliadau lle daw'r prif sbardun i'w bodolaeth o'u cyllidwyr cyhoeddus.
c. yn achos enghraifft fwyaf llwyddiannus Lloegr, pwysigrwydd arian elusennol.

**Pa gyflenwyr posibl eraill sy'n bodoli o ran yr hyn y mae Chwarae Teg yn bodoli i'w gyflawni?**

6.23 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd (tystiolaeth ansoddol yn bennaf) yn awgrymu nad oes cyflenwyr posibl ar gael **ar hyn o bryd** i gyflenwi'r hyn a wna Chwarae Teg. Prin fod

marchnad fasnachol i'r rhan fwyaf o'r hyn a wna. Pe bai Chwarae Teg yn peidio â bod fel corff gweithgar iawn, mae'n bosibl y gallai peth gweithgarwch hynod gyfyngedig barhau (e.e. rhwydweithio culach, llai agored, mwy anffurfiol ar raddfa lawer llai nag a geir ar hyn o bryd o bosibl?) ond yn y tymor byr a'r tymor canolig o leiaf ymddengys yn annhebygol y byddai cyrff eraill yn ymgynnig i ddarparu'r hyn a wna Chwarae Teg o ran cyngor strategol a pholisi a llawer o'r prosiectau rheng flaen a gyflawnir ganddo.

**Pa gyfleoedd y mae Chwarae Teg yn debygol o'u hwynebu sy'n debygol o fod o ddiddordeb i Lywodraeth y Cynulliad?**

6.24 Mae Chwarae Teg wedi bod yn ystyried rhoi mwy o ffocws ar fenywod iau, yn enwedig y rhai sy'n ddi-waith neu'n dangyflogedig, neu sydd fel arall yn economaidd anweithgar. Mae hwn yn faes sy'n berthnasol i bolisïau adfywio'r economi a thlodi plant Llywodraeth y Cynulliad, ymhlith eraill.

6.25 Os bydd Ewrop 2020 yn datblygu mewn ffyrdd sy'n berthnasol i Chwarae Teg, mae'n ddigon posibl y gallai adeiladu ar y gwaith y mae'n gobeithio ei ddatblygu yn y maes a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol yn ogystal ag adeiladu ar brosiect Cenedl Hyblyg. Yn ogystal â chyflawni dros bobl a busnesau yng Nghymru, mae gan brosiectau o'r fath yn yr UE y potensial i ddenu miliynau o bunnau o fuddsoddiad ychwanegol, na allai cyfrannau sylweddol ohono fod ar gael i Gymru pe na bai cyfrwng credadwy a chynaliadwy i gyflawni yn y maes y mae Chwarae Teg yn gweithio ynddo.

**Pa heriau mawr a gwendidau a wynebir gan Chwarae Teg, a fyddai'n amharu'n sylweddol ar ei allu i gyflawni dros Lywodraeth y Cynulliad?**

6.26 Mewn sefydliad bach o'r fath, byddai colli nifer o staff allweddol o fewn cyfnod byr yn ergyd fawr. Mae angen i Chwarae Teg gydnabod y risg hon yn fwy clir ac, hyd y gellir, ei rheoli. Gall APADGOS a chyllidwyr eraill yn Llywodraeth y Cynulliad helpu drwy geisio sicrhau penderfyniadau cyllido amserol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar arian i'r sector gwirfoddol, er mwyn lleihau unrhyw ansicrwydd ym meddyliau staff Chwarae Teg.

6.27 Byddai penderfyniadau i ddilyn blaenoriaethau nad oeddent yn gyson iawn â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yn peryglu arian gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhan o lwyddiant a gwerth Chwarae Teg i'w randdeiliad (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad) yw ei benderfyniad (a ategir gan ei statws elusennol) i geisio tystiolaeth ynglŷn â pholisi, cyngor a dulliau cyflawni sy'n ategu eu nodau elusennol, eu datblygu, eu cyfleu a'u gweithredu. Wrth wneud hyn, mae'n ystyried strategaethau a pholisïau Llywodraeth y Cynulliad (y mae'n dylanwadu ei hun ar y ffordd y'u llunnir) ond heb ddod yn "greadur" Llywodraeth y Cynulliad nac yn "is-gwmni o dan berchenogaeth lawn".

6.28 Roedd yn achos pryder i mi fod strategaeth rheoli risg Chwarae Teg ychydig yn segur. Fodd bynnag, ychydig cyn i mi ddechrau casglu tystiolaeth o ddifrif, penderfynodd y Bwrdd ailfywiogi'r maes llywodraethu hwn. Bydd angen i hyn barhau, ac mae angen i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli ddefnyddio'r gofrestr risgiau fel offeryn gweithredol i lywio'r ffordd yr ystyrir risgiau lefel uchel yn rheolaidd, gan holi, lle y bo'n briodol, pam nad yw asesiad o risgiau penodol wedi newid (os ydynt hwy a'r ffordd o'u lliniaru yn aros yn ddigyfnewid am gyfnod). Y **broses** hon, a gynhelir yn rheolaidd ar y lefel uchaf (ac **nid** wedi'i dirprwyo), sy'n bwysicach o lawer na'r dogfennau sy'n ei hategu. Ni ddylent fyth fod yn dasgau biwrocrataidd ynddynt eu hunain, rhaid iddynt fod yn fodd i

gynnal y trafodaethau y dylai'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli eu cynnal yn rheolaidd yn y maes hwn.

**Materion sy'n ymwneud â ph'un a ddylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i ddarparu cyllid craidd mewn egwyddor**

6.29 Ymhlith y ffactorau presennol a allai ddylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cyllid craidd ar ôl Mawrth 2011 mae:

a. Record dda o gyflawni ac enw da iawn yng Nghymru a thu hwnt.
b. Cysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.
c. Y gallu i ddefnyddio adnoddau na all Llywodraeth y Cynulliad eu defnyddio Yn nhermau ariannol, gall Chwarae Teg wneud cais am arian yr UE na all Llywodraeth y Cynulliad ei geisio. Mae'r un peth yn wir o bosibl am arian elusennol. Yn nhermau anariannol, ar raddfa bwysig ond cymharol fach gall Chwarae Teg gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau am ddim neu am gost fach iawn lle byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad dalu cyfraddau masnachol fel arfer. Ac ymdrech wirfoddol sylweddol ar ran amrywiaeth eang o unigolion ledled Cymru a thu hwnt weithiau.
ch. Y gallu i gyflawni Cenedl Hyblyg yn dda.
d. Mae'r tebygolrwydd y byddai'r elfen "ddi-fuddiant" a gyflawnir gan yr arian hwn (hy cyllido gweithgareddau a fyddai'n digwydd sut bynnag heb yr arian) yn ddim neu bron yn ddim.

6.30 Nid yw'r gost o ran cyfleoedd sy'n gysylltiedig â darparu cyllid craidd ar gyfer Chwarae Teg yn rhywbeth y gall yr adroddiad hwn ymdrin ag ef gan mai Chwarae Teg yn unig a ystyrir yma, ac nid galw gan eraill am adnoddau hefyd.

**Y Berthynas rhwng Cyllid Craidd a Chyllido Prosiect**

6.31 Mae'n ddymunol cyfyngu ar gyllid craidd gan nad yw bodolaeth Chwarae Teg yn ddiben ynddo'i hun. Fodd bynnag, byddai Chwarae Teg yn anghynaliadwy pe bai'n gorfod dibynnu ar y farchnad fasnachol am gyllido prosiect. Heb gyllid craidd, ni fyddai Chwarae Teg yn bodoli ar ffurf sylweddol, ac felly ni fyddai'r buddiannau a sicrhawyd gan fodolaeth a mentergarwch Chwarae Teg yn digwydd. Ni fyddai wedi bod cais llwyddiannus am Cenedl Hyblyg gan Chwarae Teg na neb arall.

6.32 Mae Cenedl Hyblyg yn cryfhau'r ddadl sydd eisoes yn gryf dros gytundeb cyllid craidd pellach i Chwarae Teg yn dechrau o fis Ebrill 2011. Byddai adolygiad arall yn dilyn hwn, tua 12 mis cyn diwedd y cyfnod cyllid craidd nesaf, yn beth dymunol iawn.

6.33 Hyd yn oed heb (neu ar ôl) prosiect mawr megis Cenedl Hyblyg, byddai'n werthfawr iawn cefnogi Chwarae Teg o hyd drwy lefel briodol o gyllid craidd (ar yr amod ei fod yn cynnal y prosesau llywodraethu a pherfformiad da a welir ar hyn o bryd).

**Hyd y cytundeb cyllid craidd nesaf**

6.34 Wrth i Cenedl Hyblyg orffen (siŵr o fod, oni bai fod "tapro" wedyn) ar 31/3/14, a yw'n gwneud synnwyr gorffen cytundeb cyllido 3 blynedd ar yr un diwrnod? Gallai opsiynau eraill fod ar gael o dan Ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Gyllido'r Sector Gwirfoddol, ee cytundeb treigl 5 mlynedd, megis yr hyn sydd gan CGGC, neu gytundeb 4 blynedd o bosibl a fyddai'n rhoi peth amser i Chwarae Teg (a Llywodraeth y Cynulliad) fanteisio i'r eithaf ar Cenedl Hyblyg, yn enwedig pe bai'r senario gwaethaf posibl yn digwydd a byddai'n rhaid iddo ddirwyn i ben fel corff gweithgar iawn.

**Materion o ran Cymorth Gwladwriaethol yr UE**

6.35 Mae angen i'r rhai sy'n cyllido Chwarae Teg o fewn Llywodraeth y Cynulliad, a Chwarae Teg ei hun fod yn ymwybodol o'r perygl o dorri deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymhorthion Gwladwriaethol yr UE (nodyn cefndir cyffredinol yn Atodiad 7). Ystyriodd Llywodraeth y Cynulliad y mater hwn yn ofalus cyn cytuno ar gytundeb cyllid craidd 2008-11 a phenderfynodd nad oedd yn broblem ar y pryd.

6.36 O ystyried na fydd cynnydd sylweddol tebygol yng ngwerthiannau masnachol Chwarae Teg o wasanaethau yn fy marn i, ni chredaf fod hyn yn debygol o fod yn broblem fawr yn y cyfnod cyllid craidd nesaf, ond bydd angen i Chwarae Teg a chyllidwyr Llywodraeth y Cynulliad yn enwedig, sicrhau eu hunain ar y mater hwn; a'i gadw mewn cof rhag ofn y bydd amgylchiadau'n newid yn yr hirdymor.

## 7. CASGLIAD AC ARGYMHELLION

7.1 Ar yr amod bod gwaith monitro rheolaidd gan ei gyllidwyr yn parhau, ac y cynhelir gwerthusiad 5 neu 6 blynedd megis hwn, mae cyllid craidd Chwarae Teg yn fuddsoddiad gwerthfawr iawn i Lywodraeth y Cynulliad oherwydd:

a. Mae Chware Teg yn gwneud cyfraniadau pwysig dros nifer o bynciau i helpu i gyflawni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig o ran yr economi, cyflogaeth, menter a sgiliau yn gyffredinol drwy ei ffocws ar gyfraniad economaidd cynaliadwy ychydig dros hanner y boblogaeth.

b. Nid ymddengys bod corff neu gyrff amgen dichonadwy a allai wneud y rhan fwyaf o'r hyn a wna ledled Cymru.

c. Erys anghydraddoldebau mawr rhwng y rhywiau yn economi Cymru, ac maent yn debygol o barhau am flynyddoedd lawer.

ch. Yn achos y rhan fwyaf o'r hyn a wna Chwarae Teg, nid ymddengys fod ffynonellau cyllido amgen o bwys ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol rhagweladwy, heb gyllid craidd byddai Chwarae Teg bron yn sicr yn dirwyn i ben yn eithaf cyflym.

d. Mae Chwarae Teg wedi dangos y gall fodloni gofynion WEFO ac eraill i gael cymeradwyaeth o nifer o brosiectau o wahanol faint a ariennir gan yr UE. Mae bron yn sicr pe na bai Chwarae Teg wedi bodoli 3 blynedd yn ôl i wneud cais i ddatblygu, lansio a rhedeg prosiect Cenedl Hyblyg, na fyddai prosiect o'r fath yn bodoli nawr. Byddai hyn wedi golygu na fyddai'r hwb i economi a sgiliau pobl Cymru (yn bennaf yn y sector preifat) sy'n deillio o'r buddsoddiad gwerth dros £12m wedi digwydd neu yn digwydd, ac ni fyddai'r arian hwnnw yn cael ei wario yng Nghymru.

dd. Mae llawer ledled Cymru yn ystyried Chwarae Teg yn sefydliad rhagorol, ac yn sefydliad y gall Cymru ymfalchïo ynddo ar lefel ryngwladol.

7.2 Er bod Chwarae Teg yn bresenoldeb effeithiol, trawiadol yng Nghymru, mae, wrth gwrs, yn wynebu heriau. Er mor dda ydyw, yn fy marn i, yng ngoleuni fy ngwaith ar yr adroddiad hwn, nid wyf mewn sefyllfa i gynghori ar gost lawn Llywodraeth y Cynulliad o ran cyfleoedd o fuddsoddi ynddo, gan ei fod yn cystadlu â blaenoriaethau eraill yn y rhannau o gyllidebau APADGOS nas diogelir ar adeg o bwysau mawr (a chyllidebau AETh i raddau llai).

### Parhau i Ddarparu Cyllid Craidd?

7.3 O'i gymharu â llawer o'r cyrff a ariennir drwy grant yr wyf wedi cael cysylltiad â hwy dros y blynyddoedd diwethaf, credaf, **pe bai** cyllidwyr Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu nad oes dewis ond lleihau cyllid craidd Chwarae Teg, gallai ddisgwyl cyfnewid barn mewn ffordd aeddfed, heb yr holl godi bwganod a welir weithiau mewn rhai cydberthnasau cyllido. Mae Chwarae Teg yn canolbwyntio'n fawr iawn ar y canlyniadau y mae'n eu ceisio yn economi Cymru yng nghyd-destun y cyfraniad a wneir i gyflogwyr, cymunedau a'r economi gyfan, ac ond yn canolbwyntio ar y sefydliad ei hun fel modd i gyflawni'r dibenion buddiol hynny. Wedi dweud hynny byddai gostyngiad mewn cyllid craidd, neu ei derfynu, fwy na thebyg, yn peri i Chwarae Teg leihau a dechrau dirwyn i ben yn y pen draw.

7.4 Ni chredaf fod darparwyr amgen credadwy i Gymru gyfan ar gyfer llawer o'r hyn a wna Chwarae Teg, na marchnad fasnachol gynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf ohono.

7.5 **<u>Argymhelliad 1:</u> Mae Chwarae Teg yn fuddsoddiad buddiol iawn a dylai barhau i gael cyllid craidd os yw'n bosibl ar y lefelau cyfredol neu lefelau tebyg.**

**Hyd y cytundeb Cyllid Craidd nesaf**

7.6 Y budd unigol mwyaf sy'n deillio o fodolaeth Chwarae Teg **ar hyn o bryd** i Lywodraeth y Cynulliad yw ei rôl fel y corff cyflawni ar gyfer Cenedl Hyblyg. Yn fy marn i, ni fydd yn synhwyrol rhoi cytundeb arall am 3 blynedd i Chwarae Teg gan y byddai hyn yn golygu bod y cyfnod hwnnw a dyddiad gorffen cyfredol Cenedl Hyblyg yn cyd-daro - sef 31ain Mawrth 2014.

7.7 **<u>Argymhelliad 2:</u> Ni ddylai Cytundeb Cyllid Craidd nesaf barhau am 3 blynedd, ond am gyfnod hwy o 4 mlynedd o leiaf, neu hyd yn oed cytundeb treigl o 5 mlynedd.**

**Amseroldeb y cytundeb Cyllid Craidd nesaf**

7.8 Mae Chwarae Teg yn cael ei redeg yn broffesiynol iawn. Mae ei allu a'i benderfyniad i gynllunio ymlaen llaw ac ystyried nifer o senarios, gan gynnwys strategaethau ymadael, wedi gwneud argraff arnaf. Pe bai Chwarae Teg yn methu â chael sicrwydd cynnar ynglŷn â'i gyllid craidd ar ôl mis Mawrth 2011, rwyf yn siŵr y byddai'n rhaid iddo ystyried rhoi rhybudd diswyddo, ar sail amddiffynnol, i aelodau allweddol o'r staff. Byddai hyn yn peryglu gwerth Chwarae Teg i Gymru ac i Lywodraeth y Cynulliad (hyd yn oed pe bai'r rhybuddion yn cael eu tynnu'n ôl, oherwydd efallai y byddai aelodau allweddol o staff wedi gadael yn y cyfamser). Ei staff yw ei ased mwyaf mewn gwirionedd, wedi'u datblygu (er bod trosiant iach) dros y blynyddoedd gydag arian cyhoeddus.

7.9 **<u>Argymhelliad 3:</u> Dylai APADGOS geisio agor a chwblhau trafodaethau gyda Chwarae Teg mor fuan â phosibl ynglŷn â chyllid craidd i Chwarae Teg ar ôl mis Mawrth 2011, ac os oes angen (ac os felly, yn amodol ar gytundeb Gweinidogion) gynnig sicrwydd ffurfiol cynnar pe na bai'n bosibl gwneud hynny cyn y byddai'n rhaid i Chwarae Teg roi unrhyw rybuddion diswyddo amddiffynnol (hy ymhell cyn diwedd 2010).**

**Cyd-fudd**

7.10 Mae'n achos pryder i mi fod gormod o bobl yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig ar hyn o bryd, yn gwneud defnydd digyfraniad o Chwarae Teg (yn enwedig **rhai** cyrff mawr yn y sector cyhoeddus) sy'n manteisio neu sydd wedi manteisio ar wybodaeth, arbenigedd a gwasanaethau Chwarae Teg ond heb gyfrannu fawr ddim, os o gwbl, yn ôl. Hyd yn oed lle nad oes marchnad fasnachol am lawer o'r hyn a wna Chwarae Teg, credaf y byddai'n well i Chwarae Teg a'i randdeiliaid, sef Llywodraeth y Cynulliad yn bennaf fel y prif gyllidwr craidd, pe gellid sicrhau mwy o **gyd-fudd** i Chwarae Teg, a lle mae'n bodoli eisoes ei fod yn cael ei gydnabod yn llawnach gan Chwarae Teg ei hun a llawer o'i randdeiliaid.

7.11 Ni fydd hyn yn golygu cyllido uniongyrchol gan amlaf, er y gallai hynny fod yn berthnasol i ryw raddau (ee ffioedd aelodaeth). Mae Chwarae Teg eisoes yn cael

cyfraniadau anariannol gan randdeiliaid (er mor fach), er enghraifft yn achos ei rwydweithio: lleoliadau, siaradwyr (sydd fel arfer yn rhoi eu gwasanaeth am ddim neu am dreuliau yn unig), hyd yn oed amser y rhai sy'n rhwydweithio.

7.12 Awgrymaf y dylai Chwarae Teg chwilio am ffordd ddigon syml o gofnodi i ba raddau y mae hyn yn digwydd, a cheisio ehangu'r hyn a wna rhanddeiliaid sy'n cyfrannu at ei genhadaeth. Dylai hyn esgor ar fwy o berchenogaeth gan fwy o randdeilaiid. Am resymau symbolaidd yn ogystal â gwirioneddol, dylai unrhyw ddogfennau megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gofnodi ymrwymiadau **i'r ddau** gyfeiriad.

**7.13 Argymhelliad 4: Cyhyd ag y bydd Chwarae Teg yn cael cyllid craidd sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad dylai sicrhau, os yw'n gwneud ymdrech sylweddol i weithio gyda sefydliadau mawr, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, ei fod yn cael cyd-fudd sylweddol, boed yn ariannol a/neu mewn da (gan gynnwys amser cyflogeion sefydliadau eraill, yn amrywio o gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol i secondiadau). Heb hynny, dylai ddefnyddio ei gyllid craidd yn ofalus iawn, os o gwbl, i gefnogi sefydliadau mawr, yn enwedig sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.**

**7.14 Argymhelliad 5: Dylai APADGOS, gyda chymorth AETh, sicrhau bod trefniadau monitro yn casglu nid yn unig yr hyn y mae Chwarae Teg yn ei wneud i randdeiliaid yn y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad) ond yn gyffredinol pa lefelau a mathau o gyd-fudd/cyd-gynhyrchu a geir, gan gynnwys cyfraniadau anariannol yn ogystal ag arian.**

**Proffil Chwarae Teg**

7.15 Dylai Chwarae Teg, os yw'n bosibl, barhau i gael cyllid craidd gan ei fod yn enghraifft o "ragoriaeth gwlad fach" ar waith. Fodd bynnag, mae'n achos pryder nad yw proffil Chwarae Teg yn uwch ac nad oes mwy o ymwybyddiaeth o'i amryw weithgareddau ac arbenigedd ymhlith amrywiaeth ehangach o'i randdeiliaid a darpar randdeiliaid. Golyga hyn na fanteisir arno'n fwy er mwyn menywod Cymru a Chymru'n gyffredinol.

7.16 Bydd y cynllun aelodaeth ar ei newydd wedd yn helpu yn hyn o beth, a hefyd Cenedl Hyblyg (sydd eisoes yn helpu). Nid oes gan Chwarae Teg gynllun cyfathrebu ffurfiol i'w helpu i fod yn rhagweithiol o ran segmentu ei gynulleidfaoedd ac ymdrin â hwy, y negeseuon y mae'n eu cyfleu, a byddai paratoi ac adolygu adroddiad o’r fath yn fodd i hoelio sylw'r Bwrdd, y mae llawer o'i aelodau yn meddu ar arbenigedd mewn agweddau ar gyfathrebu, mewn ffordd systematig a chytbwys.

7.17 **Argymhelliad 6: Dylai Chwarae Teg, pe bai'n cael ei hysbysu y bydd yn cael cyllid craidd ar ôl mis Mawrth 2011, baratoi (mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad) strategaeth gyfathrebu ar gyfer gweithgareddau'r sefydliad cyfan erbyn mis Medi 2011.**

**Tymor Hwy**

7.18 Mae Argymhelliad 1 yn cefnogi parhad cyllid craidd ar y lefelau cyfredol neu'n agos atynt oherwydd, ar ôl creu'r cyfleoedd a gynigir gan brosiect Cenedl Hyblyg, dylid rhoi cyfle i Chwarae Teg fanteisio arno o ran gwersi a ddysgwyd a gweithgareddau dilynol posibl gan gynnwys llunio achosion busnes a chynlluniau ar gyfer prosiectau

eraill. Mae Argymhelliad 2 (parthed hyd y cytundeb cyllido nesaf) hefyd yn cefnogi hyn. Ond hyd yn oed os caiff y rhain eu derbyn ni fydd "siec wag". Yn ogystal â goruchwyliaeth chwarterol a blynyddol gyffredinol arferol APADGOS (ac AETh) o'r cyllid craidd a ddarperir ganddynt, byddai'r canlynol hefyd yn briodol:

a. Dylai Chwarae Teg barhau i ystyried ehangu ei ffynonellau incwm mewn ffordd gymesur (hy nid rhy gostus). Mae a wnelo hyn nid yn unig â chynyddu incwm o ymddiriedolaethau elusennol a gweithgarwch masnachol o bosibl, ond hefyd y potensial i ehangu ei amrywiaeth o gyllidwyr **cyhoeddus** (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, yr UE, Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus mwy lleol), ac yn wir fynd ati i gwmpasu cyllid o ymddiriedolaethau elusennol. Efallai y bydd yr olaf yn fwy dichonadwy os bydd Chwarae Teg yn canolbwyntio mwy ar y rôl yn economi menywod sy'n rhieni unigol a/neu mewn tlodi ac ati, fel yr ymddengys y bydd yn ei wneud fwy na thebyg.

b. Dylai APADGOS gynnal gwerthusiad arall tua 12 mis cyn diwedd y cytundeb cyllid craidd nesaf, er mwyn ystyried yr hyn a fydd yn ddarlun llawer cliriach o ragolygon ar gyfer arian yr UE a chyllid arall ar ôl mis Mawrth 2014, a chynnydd a wnaed o ran allbynnau a chanlyniadau yn y cyfamser. Llywodraeth y Cynulliad yw prif gyllidwr craidd Chwarae Teg o bell ffordd ac felly byddai'n ysgwyddo baich tangyflawniad, aneffeithlonrwydd posibl ac ati cymaint yn fwy na phetai'n cyllido o dan 50% o'r costau craidd (yn hytrach na thua 90% fel y mae ar hyn o bryd). Byddai penderfyniad **yn awr** yn cadarnhau y bydd gwerthusiad o'r fath yn y dyfodol nid yn unig yn helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau am gyllid craidd pellach bryd hynny ond hefyd o gymorth i Chwarae Teg gael gwybod bod yn rhaid iddo ddisgwyl cymryd rhan mewn ymarfer arall tua'r adeg honno.

7.19 **<u>Argymhelliad 7</u>: Dylai Chwarae Teg barhau i geisio ehangu ei ffynonellau cyllido o bob sector, ond dylai Chwarae Teg ac APADGOS gydnabod na ddylid mynd i gostau anghymesur (amser staff yn bennaf) mewn ymdrech o'r fath; ac y byddai amrywiaeth ehangach o gyllidwyr sector cyhoeddus yn fanteisiol, yn ogystal â chyllid o ffynonellau preifat ac elusennol.**

7.20 **<u>Argymhelliad 8</u>: Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal gwerthusiad arall o'r hyn a gyflawnwyd gyda'r cyllid craidd tua 12 mis cyn diwedd cytundeb cyllido newydd.**

**Argymhellion Eraill**

7.21 **Yn ymarferol,** mae Chwarae Teg yn cadw ei gynaliadwyedd a'i brosesau rheoli risg (ond nid osgoi risg) ei hun mewn cof ar lefel gymesur. Fodd bynnag, mae'r ymgais o'r newydd eleni i reoli risg mewn ffordd fwy ffurfiol yn dda o beth. Mae'n bosibl y bydd y broses honno'n atgyfnerthu dymunoldeb codi ei broffil a manteisio ar ei enw da, gan ychwanegu mwy o werth tuag at ganlyniadau a ddymunir heb gost ychwanegol (neu sylweddol ychwanegol).

7.22 **<u>Argymhelliad 9</u>: Dylai Chwarae Teg gwblhau ei adolygiad cychwynnol o'i gofrestr risg ar lefel y Bwrdd erbyn mis Mawrth 2011, ac adolygu sylwedd y risgiau a gynhwysir, eu tebygolrwydd a'u heffeithiau o leiaf bob chwarter; a'r rhai y dylid eu hychwanegu neu eu dileu.**

7.23 Ni ddylai Chwarae Teg ac APADGOS fod yn fiwrocrataidd iawn yn eu hymwneud â'i gilydd. Bob chwarter mae Chwarae Teg yn anfon adroddiad chwarterol o

50-60 o dudalennau mewn fformat y cytunodd y ddau barti arno dros 2 flynedd yn ôl, yn erbyn cynllun gweithredu blynyddol o 11 o dudalennau. Mae hyn yn ychwanegol at y cynllun strategol 3 blynedd, 38 tudalen sy'n sail i'r cyllid craidd. Mae angen i Chwarae Teg benderfynu pa ddogfennau cynllunio a monitro sydd eu hangen arno i gynllunio a rheoli ei waith ac yna gytuno ag APADGOS beth sydd ei angen ar APADGOS i ddiwallu ei hanghenion o ran nawdd; a cheisio sicrhau bod yr hyn a anfonir at APADGOS yn deillio'n naturiol, gyda chyn lleied o waith ychwanegol â phosibl, o'r manylion sydd eu hangen i ddiwallu ei anghenion rheoli eu hunain – sef darnau o'r "un cyfanwaith" yn y bôn.

**7.24 Argymhelliad 10: Dylai Chwarae Teg awgrymu wrth APADGOS bod angen fformat newydd ar gyfer ei adroddiad monitro chwarterol fel y cam cyntaf tuag at symud i fformat llawer byrrach ar gyfer ei adroddiadau monitro. Dylid ystyried bod Chwarae Teg wedi ennyn cryn ymddiriedaeth, ond pe bai unrhyw resymau yn codi yn y dyfodol i fwrw amheuaeth ar ymddiriedaeth o'r fath, dylid cymryd camau i sicrhau mwy o sylw gan Lywodraeth y Cynulliad. (Byddai hyder Llywodraeth y Cynulliad yng ngallu Chwarae Teg i gyflawni yn amlwg yn un ffactor wrth ystyried cytundebau cyllido yn y dyfodol.) Ni ddylid ystyried y fformatau newydd yn rhywbeth sy'n cyfleu llawer o wybodaeth ddisgrifiadol fanwl am weithgareddau Chwarae Teg. Byddai'n well gwneud hynny ar wahân, lle y bo'n briodol, pan fo Chwarae Teg yn penderfynu ei chynnig, neu pan fo APADGOS (neu'n wir unrhyw rannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad) yn ei cheisio.**

7.25 Ar wahân i'r swm bach gan AETh, APADGOS yw unig gyllidwr cyllid **craidd** Llywodraeth y Cynulliad i Chwarae Teg. Er bod gweithgareddau cyfredol a blaenorol Chwarae Teg yn fwyaf perthnasol i agenda APADGOS ac AETh, mae angen i lawer mwy o Adrannau Llywodraeth y Cynulliad fod yn ymwybodol bod llawer o'i waith yn berthnasol i'w hagenda amrywiol eu hunain.

7.26 **Nid** wyf yn awgrymu y dylai nifer ffrydiau cyllid Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu cyllid **craidd** (yn hytrach na **phrosiectau** posibl) Chwarae Teg gynyddu y tu hwnt i APADGOS ac AETh. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol iawn pe gallai Chwarae Teg a'i brif enwau cyswllt yn Llywodraeth y Cynulliad dynnu sylw grŵp ehangach na chynt at wybodaeth am y rhannau perthnasol o'i weithgareddau, ei gyhoeddiadau ac ati.

7.27 Dylai APADGOS, wrth gynghori Gweinidogion ar benderfyniadau cyllido sy'n ymwneud â chyllid craidd Chwarae Teg, gydnabod natur drawsbynciol y materion y mae Chwarae Teg yn ceisio mynd i'r afael â hwy, a natur y gwerth y gall ei ychwanegu at lawer o agendâu pwysig Llywodraeth y Cynulliad.

7.28 **Argymhelliad 11: Dylai'r rhai sy'n gyfrifol yn APADGOS am gyngor ar gyllid craidd sy'n ymwneud â Chwarae Teg sicrhau bod ei waith (a'i enw da am broffesiynoldeb a chyflawni) sydd â manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl (y tu hwnt i faterion uniongyrchol o ran sgiliau, gwaith a'r economi) yn cael ei dwyn i sylw'r isadrannau polisi perthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad.**

**7.29 Argymhelliad 12: Yn benodol, dylid ymgynghori â'r rhai sydd â diddordeb posibl mewn rhai o weithgareddau Chwarae Teg (ac felly yn ei barhad fel sefydliad o sylwedd) wrth baratoi cyngor i Weinidogion ar benderfyniadau ynglŷn â chyllid craidd, gan ddechrau gyda'r cyngor y bydd angen i APADGOS ei baratoi cyn bo hir ynghylch beth fydd yn dilyn ar ddiwedd ei chytundeb cyllido cyfredol â Chwarae Teg.**

**ATODIAD 1**

## CYLCH GORCHWYL

### Gwerthusiad o gymorth APADGOS i Chwarae Teg - Cylch Gorchwyl Craidd

Sefydliad i Gymru gyfan yw Chwarae Teg, a grëwyd i sicrhau cyfraniad mwyaf posibl menywod i economi Cymru. Fe'i sefydlwyd ar y dechrau fel consortiwm o asiantaethau yn y sector cyhoeddus, ond mae bellach yn gwmni annibynnol sy'n gyfyngedig drwy warant a chanddo statws elusennol. Mae'r hen Swyddfa Gymreig a Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid craidd yn seiliedig ar Gynllun Busnes y cytunwyd arno ers sefydlu Chwarae Teg yn 1992.

Cyllideb flynyddol Chwarae Teg yw tua £2.1 miliwn sy'n dod o amrywiaeth o adnoddau. Ym mis Mawrth 2008, cymeradwyodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau Gynllun Busnes 3 blynedd ar gyfer 2008-2011 a chymorth ariannol cyfatebol o £401,657 yn 2008/09, £411,698 yn 2009/10 a £421,991 yn 2010/11.

Nodwyd archwiliad o Chwarae Teg fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2007/08. Roedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys:-

- cynllunio strategol a chyllidebu;
- monitro a gwerthuso perfformiad yn erbyn amcanion allweddol a thargedau;
- cyfathrebu a cydgysylltu â Chware Teg;
- dulliau talu.

Un o argymhellion yr archwiliad oedd bod APADGOS yn ystyried comisiynu gwerthusiad allanol o'r cynllun grant er mwyn cadarnhau ei effeithlonrwydd, ei effeithiolrwydd, a yw'n cyflawni'r amcanion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cyllido i'w cyflawni, a sut mae ei weithgareddau'n gyson â Chymru'n Un a chyfeiriadau pwysig eraill Llywodraeth y Cynulliad. .

### Methodoleg

Tri phrif nod y gwerthusiad hwn yw cadarnhau:-

- effeithiolrwydd Chwarae Teg;
- effeithlonrwydd Chwarae Teg;
- a yw'n cyflawni ei amcanion cychwynnol.

Yn ogystal ag ymchwil ddesg, bydd y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd a staff a rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad). Ymgynghorir â Chwarae Teg cyn i'r gwerthusiad ddechrau ac ar bob cam. Prif allbwn y gwerthusiad hwn fydd adroddiad yn cynnwys tystiolaeth, dadansoddiad ac argymhellion. Caiff fersiwn terfynol yr adroddiad ei gyhoeddi.

### Adnoddau a llywodraethu

Y prif adnodd fydd Martin Rolph, ymgynghorydd mewnol a leolir yn Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol. Y client ffurfiol fydd Teresa Holdsworth y caiff adroddiadau byr rheolaidd ar gynnydd eu cyflwyno iddi.

**POBL Y CYNHALIWYD TRAFODAETHAU GYDA HWY ATODIAD 2**

**Chwarae Teg**

| | |
|---|---|
| Deborah Green | Cadeirydd (a Chyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cyllid a TG, Coastal Housing Group Ltd) |
| Jeff Andrews | Is-gadeirydd a Thrysorydd |
| Katy Chamberlain | Prif Weithredwr |
| Trish Chalk | Cyfarwyddwr Masnachol |
| Beverly Pold | Rheolwr, Busnes a Datblygu Polisi |
| Judy Leering | Cyllid a TGCh |
| Ann Elliott | Rheolwr Adnoddau |
| Hayley Dunne | Rheolwr Prosiect, Cenedl Hyblyg |
| Emma Richards | De-ddwyrain Cymru, Rheolwr Rhanbarthol, Cenedl Hyblyg |
| Lois Poynting | De-orllewin Cymru, Rheolwr Rhanbarthol, Cenedl Hyblyg |
| Debbie Bowe | Gogledd Cymru, Rheolwr Rhanbarthol, Cenedl Hyblyg |

**Rhanddeiliad Sefydliadol**

| | |
|---|---|
| David Phillips | Canolfan Ansawdd Cymru |
| Phil Fiander | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Judith Stone | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Sara Pepper | Arwain a Rheoli Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd |
| Chris Atkinson | Pennaeth Canolfan Entrepreneuriaeth Menywod, Ysgol Fusnes, Prifysgol Morgannwg |
| Leighton Jenkins | CBI Cymru (ac Aelod o Fwrdd Chwarae Teg) |
| Wyn Prichard | Sgiliau Adeiladu, Cymru |
| Russell Lawson | Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymru (ac Aelod o Grŵp Llywio Cenedl Hyblyg) |
| Julie Cook | TUC Cymru (ac Aelod o Grŵp Llywio Cenedl Hyblyg) |
| Adele Baumgardt | Comisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn Cenedlaethol y Menywod |
| Gwawr Hughes | Setskills |
| Victoria Adams | (Arweinydd Cwsmeriaid Strategol GE90 GE Aircraft Engineering Services, Caerffili gynt, bellach gyda GE yn Cheltenham) |
| Sue Davison | Uned Amrywiaeth, Heddlu Gogledd Cymru |
| Eleanor Davies | Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lynne Williams | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru |
| Shân Ashton | Cyfarwyddwr, Astudiaethau Menywod, Prifysgol Bangor |
| Andrew Heylin | Canolfan Byd Gwaith |
| Annie Thompsett | Is-gadeirydd, Menywod sy'n Rheolwyr |
| Elaine Moore | Cynghrair Sgiliau Sector (Cymru) |
| Sarah Gould | LANTRA |

**Unigolion**

| | |
|---|---|
| Nia Lynn Jones | Momentwm, Yr Wyddgrug (entrepreneur) |
| Denise Roebuck | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rebecca Jones | Heddlu Gogledd Cymru |
| Michelle Downey | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Carole Cross | Coffee Cultures, Llandudno |
| Su Worlock | Aberaman (entrepreneur, a Chymraes y Flwyddyn Dychwelyd at Yrfa 2008) |

**Llywodraeth y Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Teresa Holdsworth | Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) |
| Catherine Jenkins | APADGOS |
| Barbara Morris | APADGOS |
| Sam Huckle | APADGOS |
| Bon Westcott | APADGOS |
| Jayne Roberts | APADGOS |
| Margaret McCabe | APADGOS gynt |
| Sioned Rees | Pennaeth Menter, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh) |
| Brace Griffiths | Pennaeth Cynhwysiant, Tîm Menter Canolog, AETh&T |
| Damien O'Brien | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) |
| Jane MacMillan | WEFO |
| Chriss O'Connell | WEFO |

**STRATEGAETH TLODI PLANT CYMRU (DARNAU) ATODIAD 3**
[testun mewn **print trwm** – fy mhwyslais i]

"Yng Nghymru heddiw, mae oddeutu 200,000 o blant yn byw mewn tlodi. Mae ychydig dan hanner y plant hyn yn byw mewn teuluoedd **lle mae o leiaf un o'r oedolion mewn cyflogaeth am dâl**."

"I gyflawni... Cymru yn 2020 lle nad yw unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais oherwydd tlodi, rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ein hymdrech polisi i gyflawni'r 13 Nod Eang canlynol - fel y nodir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru). [Mae'r 13 nod yn cynnwys]:

- **Hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni mewn teuluoedd incwm isel.**
- **Darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni incwm isel i sicrhau cyflogaeth am dâl.**
- **Cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.**
- **Cefnogi rhianta plant."**

"I fesur cynnydd yn erbyn ein tri amcan strategol, byddwn yn defnyddio'r dangosyddion strategol canlynol [ymhlith 5]:

- **Nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith.**
- Canran yr **oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau**."

"…**camau polisi sy'n flaenoriaeth. [rhai isod sydd fwyaf perthnasol i Chwarae Teg]**

| Nod Eang | Camau Polisi sy'n Flaenoriaeth ar gyfer y Strategaeth | |
|---|---|---|
| | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| **Sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, nad yw plant sy'n byw ar aelwydydd incwm isel yn cael eu hamddifadu'n sylweddol** | | Mwy o hyrwyddo ar arferion gwaith ystyriol o deuluoedd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. |
| **Hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni mewn teuluoedd incwm isel** | Mwy o bwyslais ar weithio gyda chyflogwyr i wella hyblygrwydd swyddi ar gyfer rhieni.<br>Cymhellion gwell i gyflogwyr hyrwyddo gweithio hyblyg. | Gwella darpariaeth gofal plant, gan gynnwys cyn ac a rôl oriau ysgol, yn ystod gwyliau ysgol ac yn y sector cyhoeddus. |
| **Darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni incwm isel i sicrhau cyflogaeth am dâl** | Mwy o weithredu i ddatblygu lefelau addysg a sgiliau rhieni'r dyfodol. | |
| **Lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant a phobl ifanc** | Mwy o weithredu i ddatblygu lefelau addysg a sgiliau rhieni'r dyfodol. | |
| **Cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn** | Mwy o weithredu i godi dyheadau plant a phobl ifanc sy'n byw yng | |

| | | |
|---|---|---|
| **effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau** | Nghymru. | |

"… rydym yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth gadarn sy'n nodi mai cyflogaeth yw'r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Byddwn yn hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cyflogaeth am dâl i deuluoedd â phlant (gan gynnwys darparu mecanweithiau cymorth fel gofal plant priodol ac o ansawdd uchel a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni ar gyfer cyflogaeth am dâl)."

"…yr hyn sydd ei angen arnom yw darpariaeth leol sydd **yn integredig,** gyda chymorth gan wahanol sefydliadau wedi'i gydlynu'n effeithiol a sicrhau bod gwasanaeth di-dor ar gyfer teuluoedd rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni. **Yn lleol**, gan adlewyrchu amgylchiadau cymunedau lleol, fel y gwahaniaethau sydd wrth ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol, a chyda cysylltiadau effeithiol â chymunedau."

Mae ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer cyflawni hyn [yn cynnwys]...amlygu a lledaenu arferion da, wedi'u nodi drwy arolygiad yn ogystal ag yn sgil ymchwil a phrofiad y tu allan i Gymru. Gwahoddir barn ar y ffordd orau o gyflawni hyn ... canolbwyntio gyda phartneriaid darpariaeth leol ar yr hyn sydd angen ei wneud i godi sgiliau staff rheng flaen."

## Cynllun Cyflawni

### "Cyflogaeth

""[Ni ddylai] unrhyw blentyn na pherson ifanc [fod] dan anfantais oherwydd tlodi incwm "….. nid yw cyflogaeth bob amser yn ffordd allan o dlodi cymharol. Mae ...yn bwysig mynd i'r afael a thlodi "mewn gwaith". Erbyn 2007, roedd ychydig mwy o blant mewn tlodi o deuluoedd a oedd yn gweithio o'u cymharu â theuluoedd heb waith. Mae nifer o'r aelwydydd yn y grŵp hwn mewn gwaith rhan-amser."

"………. rydym wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi unigolion i mewn i gyflogaeth **a** mynd i'r afael ag "ansawdd swyddi" (......... tâl, telerau gweithio ac oriau, cyfranogiad a chynnydd, cyfleoedd hyfforddi a gweithio hyblyg). ……… rydym hefyd yn sylweddoli bod yn rhaid gwneud mwy, ar draws y DU a Llywodraeth y Cynulliad, i hyrwyddo cyflogaeth i rieni mewn ffordd sy'n cyd-fynd â bywyd teuluol.."

"Mae Nodau Eang …. Strategaeth Tlodi Plant 2010 [yn cynnwys]:

"…[dwyn ynghyd] wasanaethau Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru ynghyd i greu **Camau Gweithredu wedi'u hintegreiddio ym maes Cyflogaeth a Sgiliau** a threialu gweithgareddau i brofi proses ar y cyd o "wirio sgiliau".

"Partneriaethau Cyflogaeth ……Byddwn yn

- Parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith i hyrwyddo **Partneriaethau Cyflogwyr yn y Sector Cyhoeddus yng** Nghymru.
- Trwy'r Partneriaethau Cyflogwyr Lleol, ... gweithio gyda'r cyflogwyr mwy yng Nghymru, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, i sicrhau bod gweithwyr ar gyflog isel yn cael y sgiliau a'r cyfleoedd angenrheidiol **i wneud cynnydd yn y gweithle**

- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith, awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Blaenau Gwent dan **Fenter Cymorth Cyflogaeth Gatiau'r Ysgol yr Adran Gwaith a Phensiynau**...... datblygu pecyn cymorth ar gyfer mamau neu bartneriaid mewn teuluoedd cwpl nad ydynt yn gweithio ac sydd mewn perygl o dlodi ac sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y dirwasgiad.... cefnogi mwy o "enillwyr ail incwm posibl" sydd mewn teuluoedd cwpl ar incwm isel, trwy gynyddu ymgysylltu, ac, yn y pen draw, trwy gynyddu cyflogaeth ymysg partneriaid.... cefnogaeth, cymorth a chyngor i baratoi rhieni ar gyfer (a'u cyfeirio tuag at) cyflogaeth a darpariaeth cymorth hyfforddiant yn eu hardal."

"**Buddsoddi mewn Sgiliau a Datblygu'r Gweithlu…**mae hwn yn faes allweddol o ran lleihau tlodi plant a mynd i'r afael â'r cynnydd yng ngraddfeydd tlodi **'yn y gwaith'** yng Nghymru....., **byddwn yn:**

- Darparu pecyn cefnogi busnesau wedi'i integreiddio, gan ganolbwyntio adnoddau ar sectorau blaenoriaeth a busnesau sy'n bwysig yn strategol.
- Ehangu'r **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu**, yn enwedig ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, i annog cwmnïau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau ar gyfer y gweithlu cyfan.
- Annog a chefnogi gweithwyr i weithio gyda'r **Safon Buddsoddwyr mewn Pobl....**lle mae dull hyfforddi a datblygu "gweithlu cyfan" yn angenrheidiol.
- Gweithio gyda TUC Cymru i gefnogi hyfforddiant ar gyfer gweithwyr sgiliau is trwy **Gronfa Ddysgu Undebau Cymru**.
- Gweithio gyda **Chwarae Teg....** i ddarparu cymorth i gyflogwyr i ystyried manteision trefniadau gweithio hyblyg a pholisïau ystyriol o deuluoedd."

"**Hyrwyddo** gofal plant fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd da.... gan gynnig manteision deublyg, ar gyfer cyflogaeth a datblygiad yn y blynyddoedd cynnar............., **byddwn yn:**

- Mynd ati'n strategol a chydlynol wrth ymdrin â pholisi gofal plant yng Nghymru i wella'r cyflenwad a'r amrywiaeth o ddarpariaeth gofal plant.
- Cau'r bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw am ofal plant yng Nghymru.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Cyngor Sgiliau Sector i ddatblygu a gwella'r gweithlu gofal plant yng Nghymru."

"**Cydnabyddir yn eang bod** plant sy'n byw mewn teuluoedd penodol yn y DU (ac yng Nghymru) mewn mwy o berygl o dlodi nag eraill.....**mae bod heb waith** yn risg gref sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi: Oni bai bod pob oedolyn yn y teulu yn gweithio (ac o leiaf hanner ohonynt yn amser llawn), mae'r risgiau o fyw mewn tlodi yn parhau'n uchel. **Mae teuluoedd rhiant unigol yn enwedig mewn perygl..**"

"**Camau gweithredu cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth y Cynulliad**

… angen sicrhau bod camau gweithredu ar draws Llywodraeth y Cynulliad yn gynhwysfawr a chydgysylltiedig.... natur drawsbynciol polisïau'n ymwneud â thlodi plant [yn her] Mae'n rhaid i ni oresgyn yr her hon er mwyn cyflawni ein nod o gyflwyno a darparu rhaglen gydgysylltiedig ... yng Nghymru trwy'r strategaeth tlodi plant newydd......

**ATODIAD 4**

**EGWYDDORION CYLLIDO LLYWODRAETH Y CYNULLIAD AR GYFER SEFYDLIADAU TRYDYDD SECTOR**
**(darnau o ganllaw Llywodraeth y Cynulliad ar gyllido'r sector gwirfoddol)**

"Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i liniaru tlodi, gwella ansawdd bywyd yng Nghymru, hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol. Mae cyrff y trydydd sector yn chware rhan allweddol yn y meysydd hyn sydd ar wahân i'r wladwriaeth a'r farchnad."

"Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i weithredu fframwaith ariannu effeithiol a chynaliadwy i'r trydydd sector. Seiliwyd ei phenderfyniadau ar yr egwyddorion canlynol [rhestrir rhai yn unig:]

- **Cyflwyno amcanion polisi strategol** – cydnabod y rôl y gall y sector ei chwarae i gyflawni'r rhain
- **Parch at annibyniaeth y sector** - cydnabod y gall y sector yn aml gyrraedd grwpiau na all Llywodraeth y Cynulliad eu cyrraedd a chynnig arloesed
- **Trafodaeth gynnar ac adeiladol** - yn gynnar yn y cylch cynllunio cyllideb.
- **Penderfyniadau amserol** - rhoi gwybod am gymeradwyaeth grant i bob blwyddyn ariannol erbyn 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, oni bo rhybudd eisoes wedi'i roi am derfyn amser gwahanol, mewn amgylchiadau eithriadol.
- **Sicrwydd cyllid** – ymrwymiadau tymor hir, yn amodol ar berfformiad: hyd at 5-7 mlynedd i gyllid craidd strategol gan ddarparu cyllid pendant i flwyddyn un a gwaelodlinau clir i'r blynyddoedd dilynol.
- **Adenilliad Cost Llawn** – Bydd lefelau'r cyllid yn cael eu seilio ar egwyddorion Adenilliad Cost Llawn ac yn adlewyrchu hynny.
- **Triniaeth deg a rhesymol** – trafodaeth a rhybudd rhesymol ymlaen llaw cyn ... penderfyniadau polisi a fyddai'n arwain at dynnu grantiau'n ôl neu eu lleihau yn sylweddol.
- **Monitro a gwerthuso** y gweithdrefnau symlaf sy'n cyd-fynd â sicrhau'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Bydd swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl bod mudiadau'r trydydd sector sy'n cyflwyno cynigion ariannu wedi ystyried y blaenoriaethau fel y'u hamlinellwyd yn nogfennau polisi strategol y Llywodraeth ynghyd ag egwyddorion arweiniol Llywodraeth y Cynulliad o ddatblygu cynaliadwy; cyfartaledd a chynhwysiant cymdeithasol."

"Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bedwar math o gyllid grant:

- Cyllid craidd strategol i gyrff cenedlaethol;
- Cyllid prosiect penodol ar lefel leol;

- Cefnogaeth i bartneriaethau neu gyrff cyfryngol cenedlaethol (Cymru gyfan) er mwyn iddyn nhw gefnogi prosiectau penodol ar lefel leol;
- Cyllid cychwyn i gyrff neu rwydweithiau cenedlaethol neu, drwy gyfryngau, i fudiadau lleol

Mae mudiadau gwirfoddol yn derbyn cyllid drwy gaffael yn ogystal â grantiau."

**Grantiau a Chaffael**

"Mae'r adran hon yn egluro'r defnydd priodol o grant neu gaffael.

- **Grantiau:** cyllid [i roi] cymorth i sefydliadau Trydydd Sector i'w galluogi i ymgymryd â gweithgareddau y mae Llywodraeth y Cynulliad [am] eu cefnogi. Gyda'r nod o helpu gyda chostau craidd rhedeg a datblygu sefydliad neu'n fwy penodol helpu i gynnal prosiect neu wasanaeth penodol.

- Golyga **caffael** brynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti o dan delerau cytundebol sy'n gyfreithiol rwymol. Mae contractau o'r fath o fudd i'r awdurdod cytundebu ac maent yn angenrheidiol i gynnal y busnes neu ei ddyletswydd statudol."

"Mae cyllid craidd strategol yn ystyried amcanion polisi strategol Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n digwydd pan fo Llywodraeth y Cynulliad eisiau cyflawni amcanion polisi tymor hir sy'n mynd y tu hwnt i feysydd gweithgaredd a chynaliadwyedd a ragnodwyd yn benodol .... i sicrhau bod y gallu yno, ac mae'n helpu cynllunio a sefydlogrwydd yn y tymor hirach, o fewn y sector. Mae'n ystyried amcanion y corff a gyllidir a'i angen i weithredu'n effeithiol ac effeithlon."

"Bydd y cyllid craidd strategol yn cael ei ddefnyddio fel arfer:

- pan fo gweithgareddau mudiad yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth y Cynulliad ac mae'r mudiad hwnnw mewn lle gwell na Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno i sectorau, grwpiau neu unigolion arbennig;
- pan fo Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno cefnogi grŵp targed arbennig; neu
- pan fo Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod gwerth goblygedig mudiad (ei hanes/sefyllfa strategol) a'i swyddogaeth yng nghyd-destun ehangach y trydydd sector ac yn dymuno cefnogi'r swyddogaeth honno a'i fod yn fodlon bod sgiliau rheoli ariannol addas ar gael i'r mudiad.

"Dylai cyllid craidd strategol fod yn rhan o berthynas barhaus rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r corff a gyllidir dros gyfnod hir... yn seiliedig ar nifer o ffactorau yn cynnwys:

- dealltwriaeth eglur o'r disgwyliadau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad o'r corff cyfan (er enghraifft, ymatebion cytbwys i ymgynghoriadau neu fewnbwn parhaus i faterion o bwys i'r ddwy ochr);
- gwerth gorau yn ôl meini prawf cynaliadwy;
- bod adnoddau ariannol ar gael;
- fframwaith y cytunwyd arni gan y ddwy ochr ar gyfer monitro a gwerthuso sy'n gymesur â'r cyllid a ddarperir;
- prosesau adolygu ffurfiol sy'n gymesur â'r cyllid;

- pan fo angen dadansoddiad gwerthuso manwl o gyllid craidd, dylid caniatáu cyllid priodol yn ychwanegol at y cyllid craidd."

"Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried cynigion i gefnogi mudiadau i ddatblygu eu capasiti a'u galluoedd i gyfrannu at ffurfio polisi Llywodraeth y Cynulliad ac i ehangu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau, yn bennaf fel rhan o gyllid strategol craidd."

**ATODIAD 5**

**ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR CHWARAE TEG (O'r pedwerydd chwarter 2009/10)**

1. Nod yr Atodiad hwn yw rhoi blas o'r hyn y mae Chwarae Teg yn ei wneud wrth roi ei gynllun busnes 3 blynedd a'i gynlluniau gweithredol blwyddyn ar waith. Mae'n seiliedig ar yr adroddiad chwarterol 62 tudalen a gyflwynwyd i APADGOS ar gyfer pedwerydd chwarter 2009-10.

2. **Roedd gweithgareddau addysg, sgiliau a chyflogaeth allweddol yn cynnwys:**

a) Digwyddiad Chwarae Teg i gefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched, "Menywod yn Ysbrydoli Menywod" gyda Hayley Parsons (Gocompare.com) yn siarad ymhlith eraill. 142 yn bresennol.

b) Wedi cynnal dadleuon yn y Gogledd, y Gorllewin a'r De-ddwyrain lle trafodwyd materion ynglŷn â menywod yn yr economi. Cyhoeddwyd yr allbwn ar wefan Chwarae Teg.

c) Cymerodd y Prif Weithredwr ran mewn tri chyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldebau, a ffurfiwyd i ystyried materion o ran perfformiad a lles mewn sefydliadau addysgu a oedd yn ymwneud â rhywedd.

ch) Parhaodd Chwarae Teg i roi cymorth gweinyddol i ddigwyddiadau misol rhwydwaith Menywod sy'n Rheolwyr yn y De-ddwyrain. Mae'r rhwydwaith yn cynnig amgylchedd buddiol i fenywod sy'n anelu at fod yn rheolwyr fanteisio ar brofiad menywod mewn uwch swyddi.

d) Ymunodd y Prif Weithredwr â fforwm Sgiliau Adeiladu De-ddwyrain Cymru.

dd) Siaradodd y Prif Weithredwr yn Rhwydwaith Menywod GE UK mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan GE Aircraft Engineering yng Nghaerffili ac mae'r ddau barti'n bwriadu datblygu'r bartneriaeth hon ymhellach er lles menywod a busnesau yng Nghymru.

e) 3 Digwyddiadau'r Rhwydwaith Hyfforddiant a Menter ledled Cymru, roedd siaradwyr yn cynnwys Dr Barrie Kennard, Arwain a Rheoli Cymru a Moira Morgan, Coleg Sir Benfro, ar "Females in Construction, Engineering, Electrical and Motor Engineering".

3. **Roedd gweithgareddau allweddol a oedd yn ymwneud â gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn cynnwys:**

a) Dau ddigwyddiad mewn partneriaeth â Chanolfan Ansawdd Cymru a BT o dan raglen Inside Welsh Industry y Ganolfan. Rhoddodd BT gyflwyniad ar y ffordd y gellir sicrhau'r defnydd gorau o eiddo drwy Weithio Hyblyg. Rhoddodd Chwarae Teg gyflwyniad ar y ffordd y gall Gweithio Hyblyg sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau dynol ac ar gynnydd yng Nghymru.

b) 2 weithdy "Flexible Working: When, Where and How" PSMW EXPO

c) Rhwydwaith Gweithio Hyblyg De-orllewin Cymru (FW) a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.

ch) Yn y Grŵp Arweiniad Newid yn yr Hinsawdd trafodwyd Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith a materion eraill mewn perthynas â datblygu economaidd menywod a rheidrwydd Newid yn yr Hinsawdd.

d) Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad i Rwydwaith Menywod GE, a gynhaliwyd gan GE Aircraft Engineering Services. Nodwyd cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach.

dd) Mae prosiect Cenedl Hyblyg yn cyflawni mewn perthynas â gweithio hyblyg a datblygiad gyrfaol menywod ledled Ardaloedd Cydgyfeirio Cymru (gweler Atodiad 5).

4. **Roedd gweithgareddau allweddol Entrepreneuriaeth Menywod** yn cynnwys:

a) Penodwyd Rheolwr Datblygu Polisi a Busnes Chwarae Teg i Fwrdd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru (WSEC) a oedd newydd ei sefydlu.

b) Cyfrannu at waith ymchwil a gwerthuso Llywodraeth y Cynulliad ar y Gronfa Her Cynhwysiant.

c) Trefnwyd Gweithdy i Rieni Unigol ar gyfer Darparwyr Cymorth Hyblyg i Fusnes/Busnes Prif Ffrwd De-ddwyrain Cymru i gefnogi'r gronfa her cynhwysiant.

5. **Roedd gweithgareddau polisi ac ymchwil allweddol (gan gynnwys gweithgareddau yn y cyfryngau) yn cynnwys:**

a) Y Prif Weithredwr yn rhannu arfer gorau o Cenedl Hyblyg a gwaith arall Chwarae Teg yng nghyfarfod Llywodraeth y DU o sefydliadau anllywodraethol i drafod asiantaeth Menywod y CU

b) Rhannu gwybodaeth am weithgareddau Chwarae Teg gyda Grŵp Ymgynghori Comisiwn Cenedlaethol y Merched ar Faterion Ewropeaidd a'r Gymanwlad.

c) Cynadleddau pleidiau Cymru.

d) Pennaeth Is-adran Plant, APADGOS, i drafod darpariaeth gofal plant.

dd) Ymateb i ymgynghoriad Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddrafftio (a'i gyflwyno Gwanwyn 2010).

6. Cyflwynir adroddiadau cynnydd chwarterol manwl yn erbyn y Cynllun Blynyddol, y daw'r cynnwys canlynol ohono:

**THEMA – ADDYSG SGILIAU A CHYFLOGAETH**

**Nodau Strategol**

- Gwella cynrychiolaeth menywod mewn uwch swyddi a swyddi gwneud penderfyniadau.

- Cynyddu cyfranogiad menywod yn yr economi yn enwedig mewn sectorau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Amcan Targed: Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth y Cynulliad, addysgwyr, cynghorwyr gyrfa, cyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector, ac ati ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol ym maes addysg hyfforddiant a chyflogaeth.**

**Gweithgareddau/Allbynnau:** Cynnal gwaith monitro a gwerthuso ar Bwyllgorau perthnasol y Cynulliad, papurau polisi allweddol, ymchwil a gwybodaeth (Cymru, y DU ac Ewrop) a pharatoi gwybodaeth bolisi o safon am faterion sy'n ymwneud â gwahanu fertigol a llorweddol ym maes addysg, sgiliau a'r farchnad lafur.

Mae'r targedau'n cynnwys:

a) Paratoi cylchlythyr chwarterol sy'n codi proffil gwerth cydraddoldeb rhywiol i'r economi, a rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau ac arfer gorau i gynulleidfa ehangach. Cylchlythyr argraffedig yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf, gydag adrannau ar Weithio Hyblyg a chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, menter, polisi addysg a sgiliau, a Cenedl Hyblyg.

b) Paratoi papur polisi/briffio chwe-misol wedi'i deilwra i Lywodraeth y Cynulliad (Is-adran Busnes a Sgiliau) sy'n crynhoi'r wybodaeth a'r dadansoddiad a ddarparwyd gan waith Chwarae Teg ar ymatebion i ymgynghoriadau a gweithgarwch polisi arall, er mwyn tynnu sylw at dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad llawn menywod yn yr economi.

c) Cyflwyno Astudiaeth Gwmpasu o Rieni Unigol i AETh, gydag argymhellion.

2. Meithrin cysylltiadau pellach fel y bo'n briodol yn enwedig yng ngoleuni'r dirwasgiad: par Cyflogaeth, RhNgCC, Gyrfaoedd, ReAct a ProAct. Ymunodd y Prif Weithredwr â Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wahoddiad y Gweinidog. Mae'r Grŵp yn ymchwilio i wahaniaethau rhwng y rhywiau ym maes cyflawniad addysgol a strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain.

3. Parhau i gefnogi Cynghorau Sgiliau Sector i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ymwneud â mentrau wedi'u targedu, gan gynnwys:

i) SummitSkills - Grŵp Llywio Prosiect Gyrfaoedd ac Amrywiaeth.
ii) SEMTA – Datblygiad Gyrfaol Menywod ym maes Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg.

Cyflwynwyd cynnig i AETh ar gyfer gweithdai i gynghorwyr sy'n gweithio gyda rhieni unigol.

Ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o brosiect ar y cyd, ar sail Rhaglen Cymorth Wrth Ymyl yr Ysgol yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

4. **Amcan Targed**: Hwyluso'r 3 rhwydwaith Hyfforddiant ac Addysg presennol i gynnig modd i rannu gwybodaeth ac arfer da.

**Gweithgareddau/Allbynnau**

Sicrhau cynrychiolaeth ofodol traws-sector a mynediad i wybodaeth/arfer da a rennir ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol, cydraddoldeb mewn addysg, hyfforddiant a sgiliau.

**Targed:** Cynnal 2 gyfarfod o bob rhwydwaith y flwyddyn (hy 6 chyfarfod ledled Cymru) a chyhoeddi'r canlyniadau mewn cylchlythyr.

5. **Amcan Targed:** Sefydlu fforwm traws-sector o fenywod i nodi, rhannu a datblygu materion allweddol sy'n effeithio ar fenywod yn economi Cymru.

**Gweithgareddau/Allbynnau:** Nodi menywod o drawstoriad o sectorau, rolau a meysydd gofodol i fynychu cyfres o ddadleuon fforwm.

**Targedau:**

a) Cynnal 4 dadl. Cael manylion am faterion allweddol sy'n wynebu menywod yng Nghymru.
b) Tynnu sylw Llywodraeth y Cynulliad at ganfyddiadau drwy ymgynghoriadau a phapurau briffio.

**THEMA - GWEITHIO HYBLYG A CHYDBWYSEDD RHWNG BYWYD A GWAITH**

**Nod Strategol:** Helpu i sicrhau bod gan Gymru economi fodern sy'n seiliedig ar arferion Gweithio Hyblyg a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.

**Amcan Targed:** Ymgyrch ar y ddau fater i gynnwys y canlynol: datblygu cynllun ar gyfer cofrestru busnesau fel rhan o gymorth sydd â chymhorthdal ar gyfer Gweithio Hyblyg, cyngor; nodi hyrwyddwyr Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith/Gweithio Hyblyg traws-sector.

**Targedau:**

a) *[Bydd Cenedl Hyblyg yn parhau i godi proffil Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith/Gweithio Hyblyg yn yr ardal gydgyfeirio yn enwedig i'r sector cyhoeddus a BBaChau.]* Bydd gweithgarwch marchnata ehangach ym maes Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith/Gweithio Hyblyg yn canolbwyntio ar ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Cydgyfeirio ac ar gyflogwyr nad ydynt wedi'u cwmpasu gan weithgarwch mewn ardaloedd Cydgyfeirio, yn enwedig y sector cyhoeddus a BBaChau.
b) Parhau â marchnata/hyrwyddo cyffredinol gyda ffocws arbennig ar berthnasedd ymateb busnesau i'r dirwasgiad, gan gynnal 3 digwyddiad.
c) Arolwg o fusnesau, er mwyn darparu gwybodaeth am ymwybyddiaeth y sector preifat a'r sector cyhoeddus o Weithio Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, eu buddiannau i fusnesau a'u hygyrchedd yn eu sefydliad.
ch) adroddiad diweddaru chwe-misol er mwyn i randdeiliaid gynnwys gwybodaeth ar y wefan.

**Amcan Targed:** Ailwampio gwefan Chwarae Teg - er mwyn cynnwys porth o wybodaeth ac adnoddau.

**Targedau:**

a) Gweithredu a datblygu ymhellach wefan ryngweithiol (sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Ragoriaeth fel rhan o brosiect Ewropeaidd Cenedl Hyblyg.)
b) Casglu gwybodaeth ansoddol gan ymwelwyr - ee ymweliadau monitro/ail ymweliadau, nifer yr ymholiadau, math o ymholiadau, ac ati. Adroddiad dadansoddi chwarterol i fwydo i mewn i adroddiad diweddaru chwe-misol.
c) Parhau i farchnata'r wefan a brandio Cenedl Hyblyg, gwefan Canolfan Ragoriaeth wrthi'n cael ei pharatoi i'w chysylltu â gwefan Chwarae Teg, a fydd yn cael ei hadolygu i ryw raddau.
ch) Drafft cyntaf o Ganolfan Ragoriaeth Rithwir yn cael ei ddatblygu, a fydd yn hyrwyddo Gweithio Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith i bob sector a aeth yn fyw ar 18fed Rhagfyr 2009.

**Amcan Targed:** Cynnig arbenigedd a chyngor i'r llywodraeth ar Weithio Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.

**Targedau:**

a) Monitro data/ymchwil/gwybodaeth ac acti a darparu gwybodaeth a gwasanaeth cynghori ar faterion Gweithio Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith yng nghyd-destun polisïau ac arfer Llywodraeth y Cynulliad/Llywodraeth y DU.
b) Rhoi cyngor mewn cyfarfodydd â swyddogion polisi arweiniol Llywodraeth y Cynulliad, CGGC, Cynghorau Sgiliau Sector a chyfarfodydd, rhwydweithiau a fforymau eraill. Adroddiadau diweddaru chwe-misol.
c) Rhedeg un fforwm gwybodaeth y flwyddyn gydag adrannau Llywodraeth y Cynulliad.

**Amcan Targed:** Cynnal 3 digwyddiad fforwm allanol y flwyddyn (Gogledd a De Cymru) gan ddefnyddio Rhwydweithiau presennol Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith er mwyn rhoi modd i rannu gwybodaeth ac arfer da.

**Gweithgareddau/Allbynnau:** sicrhau cynrychiolaeth traws-sector a mynediad i wybodaeth/arfer da a rennir ar faterion sy'n ymwneud â Gweithio Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith.

**Targed:** Cynnal 2 gyfarfod o bob rhwydwaith y flwyddyn (hy 6 chyfarfod ledled Cymru) a chyhoeddi'r canlyniadau mewn cylchlythyr.

**Amcan Targed:** Gan ddefnyddio safon ansawdd sy'n bodoli eisoes, hwyluso ei ddatblygiad i wella rhaglen Gweithio Hyblyg/ Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith yng Nghymru yn y dyfodol a chyfrannu'n gadarnhaol ati.

**Gweithgareddau/Allbynnau:** Cefnogi datblygu safon BmP yng Nghymru i helpu i hyrwyddo Gweithio Hyblyg/ Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith fel elfen allweddol o'r safon i gwmnïau yn y sector preifat sy'n ceisio achrediad BmP.

**Targedau:** Parhau i ystyried potensial cydweithredu ar elfen Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith o safon BmP ar y cyd ag APADGOS. Cynnal 2 sesiwn hyfforddi flynyddol ar gyfer staff cymorth Adnoddau Dynol a Datblygu - yn amodol ar gyd-drafod/cytuno â swyddog arweiniol yn APADGOS.

## THEMA - ENTREPRENEURIAETH MENYWOD

**Nodau Strategol:** Cynyddu nifer y menywod sy'n dechrau ac yn tyfu busnesau.

**Amcan Targed:** Cynrychioli Cymru ar Fwrdd Prowess gan sicrhau bod materion a blaenoriaethau Cymru yn cael eu hystyried o fewn agenda ehangach y DU.

**Gweithgareddau/Allbynnau:** Cynnal proffil Cymreig drwy wefan, golygyddion, traethodau a chysylltiadau â chwaraewyr allweddol (megis Prowess). Mynd i ddigwyddiadau Prowess er mwyn sicrhau bod materion menter menywod yng Nghymru yn cael eu cynrychioli fel rhan o ddadl i'r DU gyfan.

**Targedau:**

a) O leiaf un digwyddiad y flwyddyn. Targedau ychwanegol yn dilyn trafodaeth gydag AETh.
b) Cynnal cysylltiadau â Prowess (mae'n cael ei ailstrwythuro ar hyn o bryd.)
c) Monitro datblygiadau ym Mholisi Menter Menywod ar lefel y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill a nodi arfer gorau a thueddiadau newydd.

**Amcan Targed:** Codi proffil entrepreneuriaeth menywod fel rhan allweddol o ddatblygiad economaidd menywod yng Nghymru.

a) Paratoi un erthygl safbwynt y flwyddyn i'w cyhoeddi yn y cyfryngau.
b) Ystyried y cyfle i gydweithredu ar ymchwil benodol gyda Phrifysgol Morgannwg neu bartner academaidd arall.
c) Ystyried cyfleoedd cyllido i hyrwyddo a chefnogi menter menywod er mwyn ategu mentrau Llywodraeth y Cynulliad.

## THEMA – POLISI AC YMCHWIL

**Nodau Strategol:** Dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer a'u llywio drwy wybodaeth/profiad ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, astudiaethau a data.

**Amcan Targed:** Darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ar faterion, sy'n ymwneud â menywod yn economi Cymru i Lywodraeth y Cynulliad, WEFO, gan gynnwys Gweinidogion, Pwyllgorau ac aelodau o staff a nodwyd.

**Gweithgareddau/Allbynnau:** Monitro pwyllgorau perthnasol y Cynulliad. Paratoi gwybodaeth bolisi o safon am faterion sy'n ymwneud â chyfranogiad menywod yn economi Cymru.

**Targedau:**

a) Cylchlythyr chwarterol i godi proffil gwerth cydraddoldeb rhywiol i'r economi, a rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau ac arfer gorau i gynulleidfa ehangach.
b) Meithrin perthynas â Phwyllgorau Sefydlog Llywodraeth y Cynulliad a sicrhau cyfleoedd i roi cyflwyniadau ar faterion perthnasol agenda Chwarae Teg.
c) Parhau i gynnig cyngor arbenigol ac arweiniad i Pwyllgor Monitro Rhaglenni Datblygu Gwledig Cymru, a Phwyllgor Llywio Datblygu Gwledig Cymru i hyrwyddo a chefnogi menywod mewn ardaloedd gwledig.

**Amcan Targed:** Cynnig arbenigedd i sefydliadau partner sydd â chysylltiadau agos â Llywodraeth y Cynulliad a'r agenda ansawdd/economaidd megis CGGC, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Targedau:**

a) Mynychu fforymau Addysg/Sgiliau, Menter, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio CGGC a chyfrannu at gyfarfodydd perthnasol â Gweinidogion.
b) Mynychu/cyfrannu at Fforwm Cydraddoldebau CGGC
c) Mynd i gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol i gynrychioli'r Rhwydwaith Cyflogaeth.

**Amcan Targed:** Cynnal adolygiad polisi a pharatoi ymatebion i ymgynghoriadau ar ddogfennau polisi perthnasol Llywodraeth y Cynulliad, y DU a'r UE.

**Amcan Targed:** Tynnu sylw at faterion perthnasol a negeseuon craidd drwy'r cyfryngau a dulliau eraill.

**Targedau:**

a) Monitro'r wasg a chyfryngau eraill o ran materion sy'n berthnasol i gylch gorchwyl Chwarae Teg. Gwneud sylwadau ar faterion perthnasol yn y wasg a'r cyfryngau ehangach.
b) Paratoi datganiadau hyddysg ac erthyglau ar gyfer y wefan ac i'w cyhoeddi'n ehangach.
c) Sicrhau cyfleoedd i gyflwyno erthyglau i'w cyhoeddi, e.e. Inside Welsh Recruitment Working. Ar y cyd â'n cynghorwyr cysylltiadau cyhoeddus allanol, mae Swyddog Marchnata Chwarae Teg yn bwrw golwg dros straeon allweddol yn y wasg bob wythnos ac yn eu dosbarthu i bob aelod o staff.

**ATODIAD 6**

## CENEDL HYBLYG

1. Nod Cenedl Hyblyg yw hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, cefnogi datblygiad gyrfaol a chyfrannu at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy sefydlu modelau cyflawni sy'n cefnogi cynhyrchiant a datblygiad mewn cyflogaeth ac sy'n defnyddio arferion gweithlu modern, gan gynnwys gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

2. Mae meysydd gweithgarwch allweddol yn cynnwys:

- a) darparu hyfforddiant arwain a rheoli wedi'i deilwra ac wedi'i achredu, gyda rhaglen mentora a datblygu i fenywod;
- b) helpu menywod i gael eu dyrchafu i uwch rolau a datblygu cyfleoedd gyrfaol rhan amser **o safon**;
- c) gweithio gyda chyflogwyr i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith y gweithlu ac arferion da mewn gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith er mwyn **hyrwyddo buddiannau i fusnesau**, mewn cydweithrediad â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a Chynghorau Sgiliau Sector;
- ch) hwyluso gweithio hyblyg drwy ddefnyddio'r adnoddau TGCh diweddaraf;
- d) darparu Canolfan Ragoriaeth Rithwir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol ym maes cyflogaeth a gweithio hyblyg yng Nghymru;
- dd) datblygu Nod Ansawdd Cyflogwr Da ar gyfer cydraddoldeb rhywiol ym maes cyflogaeth;
- e) dylanwadu ar ddewis drwy addysg a hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael â stereoteipio rhywiol a gwahanu yn ôl galwedigaeth;
- f) nodi a chomisiynu ymchwil, gan gynnwys olrhain hydredol ac astudiaethau cymharol;
- ff) datblygu a gweithio gyda phartneriaethau trawswladol er mwyn cydweithredu ar weithgareddau cyfochrog.

Bydd datblygiadau arloesol yn cynnwys:

- a) Porth i Gyfranogwyr er mwyn cefnogi gweithio o bell/cartref i unigolion drwy fynediad i system TGCh fewnol eu sefydliad;
- b) rhoi cymorth ac arweiniad i'r sector BBaChau a sectorau eraill er mwyn sicrhau'r buddiannau i fusnesau a ddaw yn sgîl arferion gwaith newydd a gweithio hyblyg drwy TGCh;
- c) sefydlu tîm o Gynghorwyr Arfer Gorau i weithio gyda chyflogwyr ar fapio sefydliadol, gweithio hyblyg/cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ch) helpu i weithredu rhaglenni addysgol a chyngor a chynnal ymchwil.

Ymhlith y canlyniadau a geisiwyd mae:

- a) lleihau rhwystrau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb rhywiol ym maes cyflogaeth;
- b) mwy o hyblygrwydd i'r gweithlu;
- c) cynyddu nifer y menywod sy'n symud i uwch rolau;
- ch) cynyddu nifer y menywod sy'n gweithio mewn sectorau annhraddodiadol;
- d) cynyddu nifer y menywod sy'n gweithio mewn swyddi rhan amser o safon.

## Sefyllfa Gweithgareddau Cenedl Hyblyg ar ddiwedd mis Mawrth 2010

## A. MENYWOD UNIGOL SY'N CYFRANOGI

| Cael Hyfforddiant | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Heb ei ddyrannu | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 343 | 148 | 31 | 6 | 528 |
| Targed | | 80 | | | 570 |

| Ennill cymwysterau | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 59 | 0 | 0 | 59 |
| Targed | | | | 441 |

Mae'r broses asesu a dilysu yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd. Y gobaith yw y bydd hyn yn gwella gan fod statws LM wedi'i ennill. Caiff y targedau eu hailbroffilio er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r allbynnau erbyn diwedd y prosiect.

| Defnyddio Sgiliau Sylfaenol | Cyfeiriwyd | Defnyddiwyd | Enillwyd Cymhwyster |
|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 4 | 0 | 0 |
| Targed (Mawrth 2014) | | 100 | |

| | Gwirioneddol | Targed (2014) |
|---|---|---|
| Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â'r Modiwl ychwanegol ar Gydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith a/neu Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. (Modiwlau sy'n cael eu datblygu ar gyfer hydref 2010) | 0 | 450 |
| Cyfranogwyr sy'n defnyddio'r Cynllun Mentora | 49 | 1,000 |
| Defnyddio'r Cynllun Lwfans Hyfforddiant (Mae'r Cynllun wrthi'n cael ei ddatblygu) | 0 | 200 |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 12 | 90 |
| Gweithwyr Mudol a Gofrestrwyd | 11 | 100 |
| Pobl anabl yn enwedig o ran cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith | 38 | 362 |

| Oedran | 15-24 | 25-54 | 55-64 | 50+ (Gwirioneddol) | 50+ (Targed) |
|---|---|---|---|---|---|
| | 55 | 437 | 36 | 86 | 418 |

| Statws cyflogaeth | Cyflogedig | Hunangyflogedig | Rhan-amser | Rhan-amser (Targed) |
|---|---|---|---|---|
| | 490 | 38 | 125 | 809 |

| Lefel Cymwysterau ar adeg cofrestru | Dim | Islaw NQF 2 | NQF Lefel 2 | NQF Lefel 3 | Lefelau NQF 4-6 | Lefelau NQF 7-8 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20 | 6 | 63 | 145 | 236 | 58 |

**[Ymgyrch farchnata yn cael ei chynnal]**

## Cyfranogwyr yn ôl Awdurdod Lleol

| Awdurdod Lleol | Nifer |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 16 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12 |
| Caerffili | 38 |
| Sir Gaerfyrddin | 55 |
| Ceredigion | 29 |
| Conwy | 38 |
| Sir Ddinbych | 31 |
| Gwynedd | 29 |
| Ynys Môn | 32 |
| Merthyr Tudful | 20 |
| Castell-nedd Port Talbot | 46 |
| Sir Benfro | 40 |
| Rhondda Cynon Taf | 56 |
| Abertawe | 53 |
| Torfaen | 30 |
| Y tu allan i'r ardal gydgyfeirio | 03 |
| **Cyfanswm** | **528** |

| **Sector** | Preifat | Cyhoeddus | Gwirfoddol/Trydydd Sector |
|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 218 (41%) | 131 (25%) | 179 (34%) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Targed | 60% | 20% | 20% |

| Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach (o fewn chwe mis i gwblhau Prosiect Cenedl Hyblyg) | Gwirioneddol | Targed (diwedd Mawrth 2010) | Targed (diwedd Mawrth 2014) |
|---|---|---|---|
| | 1 | 25 | 150 |
| Cyfranogwyr sy'n cael eu dyrchafu i uwch rôl | 1 | 700 | |

1. Mae'r gwaith o olrhain hynt cyfranogwyr yn dechrau 6 mis ar ôl cwblhau dysgu ac mae wedi dechrau. Bydd dyddiad arall ar gael yn ddiweddarach eleni.
2. O fenywod a gofrestrwyd hyd yma: mae 75 yn rhieni unigol; ac mae 20 wedi nod mai Cymraeg yw eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu

## B. CYFLOGWYR

| Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y Cyflogwyr |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 |
| Caerffili | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 9 |
| Ceredigion | 3 |
| Conwy | 6 |
| Sir Ddinbych | 4 |
| Gwynedd | 7 |
| Ynys Môn | 2 |
| Merthyr Tudful | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 |
| Sir Benfro | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 11 |
| Abertawe | 11 |
| Torfaen | 8 |
| Y Tu Allan i'r Ardal Gydgyfeirio | 1 |
| **Cyfanswm** | **82** |

| Sector | Preifat | Cyhoeddus | Trydydd Sector/Gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 42 | 13 | 27 | 82 |
| Targed | | | | 119 |

| Nifer y Cyflogwyr sy'n defnyddio 'Agor Drws i Weithlu Mwy Amrywiol' | Gwirioneddol | Targed (2014) |
|---|---|---|
| | 47 | 450 |
| Cyflogwyr sy'n ymgymryd â Mapio Sefydliadol | 15 | 450 |
| Cyflogeion newydd o awdurdodau cyhoeddus sy'n cymryd rhan ac sy'n gwneud defnydd o | 0 | 400 |

| | | |
|---|---|---|
| arferion gweithio hyblyg | | |
| Cynllun peilot uwch swyddi rhan-amser o safon | 0 | 25 |
| Cyflawni Nod Barcud Cyflogwr Da | 0 | 100 |
| Cyflogwyr, addysgwyr a chynghorwyr sy’n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 0 | 610 |
| Cynyddu nifer y dynion sy'n ymgymryd â hyfforddiant mewn sectorau annhraddoiadol neu'n manteisio ar arferion gweithio hyblyg | 0 | 100 |
| Cyflogeion newydd o BBaChau sy'n cymryd rhan ac sy'n manteisio ar weithio hyblyg, gweithio gartref neu weithio o bell drwy'r porth rhyngweithiol a/neu wneud defnydd o raglenni gweithio hyblyg | 0 | 100 |

1. Mae pob canlyniad yn dangos “0” o dan gwirioneddol ar hyn o bryd am nad yw'r meysydd hynny wedi'u datblygu na'u lansio eto. Bydd gan bob un broffil clir hyd at 2014.
2. Ystadegau eraill ar gyflogwyr a gofrestrwyd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2010: 11 o gwmnïau newydd, hy busnesau a sefydlwyd lai na dwy flynedd yn ôl; Mentrau Cymdeithasol a 37 o BBaChau.

## C. ADDYSGWYR ( Nid yw meysydd y rhaglen wedi'u datblygu na'u lansio eto)

| | Gwirioneddol | Targed (2014) |
|---|---|---|
| Addysgwyr Trydyddol wedi'u hyfforddi ar effaith stereoteipio rhywiol a gwerth hyrwyddo cyfleoedd mewn sectorau annhraddodiadol i fechgyn a merched | 0 | 75 |
| Addysgwyr wedi'u hyfforddi ar effaith stereoteipio rhywiol a gwerth hyrwyddo cyfleoedd mewn sectorau annhraddodiadol i fechgyn a merched | 0 | 60 |

## CH. CYNGHORAU SGILIAU SECTOR

| | Gwirioneddol | Targed (2014) |
|---|---|---|
| Partneriaethau â Chynghorau Sgiliau Sector yn codi ymwybyddiaeth o faterion rhywedd a datblygu nodau strategol ar gyfer y materion hyn ym maes hyfforddiant a datblygu | 0 | 25 |

Mae Cynghorau Sgiliau Sector yn cael eu haildrwyddedu ar hyn o bryd ac mae nifer yn uno â'i gilydd - bydd hyn yn effeithio ar y canlyniad a bydd Chwarae Teg yn trafod hyn gyda WEFO fel y bo'n briodol.

## CH. CYFFREDINOL

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Cyfranogwyr mewn Prosiectau | Gwirioneddol | Targed (2014) |
| | 610 | 3,400 |

| | |
|---|---|
| Astudiaethau Ymchwil | Targed (2014) |
| | 4 |

Bydd angen i'r prosiect gyflwyno adroddiad ar ei astudiaeth ymchwil gyntaf a gwblhawyd erbyn mis Mawrth 2011.

| | |
|---|---|
| Strategaethau Dysgu a Datblygu | Targed (2014) |
| | 4 |

Bydd angen i'r prosiect gyflwyno adroddiad ar ei Strategaeth Dysgu a Datblygu gyntaf a gwblhawyd erbyn mis Mawrth 2011.

| | |
|---|---|
| Partneriaethau trawswladol | Dim targed penodol ond mae'n faes y mae'r prosiect wedi nodi y bydd yn ymwneud ag ef. |
| Nifer sy'n defnyddio'r Ganolfan Ragoriaeth Rithwir | Daeth y wefan yn weithredol ym mis Rhagfyr 2009. Dim targedau penodol ond mae Google Analytics wedi'i osod i fesur nifer yr ystadegau, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr â'r safle. Ion-Maw 2010 anfonodd pob ffynhonnell o draffig gyfanswm o 2,967 o ymweliadau. |

**ATODIAD 7**

**LEFELAU CYFLOG STAFF - Amrediadau Cyflog ar gyfer 2010-2011**

| Gradd | Enghraifft | Gwaelod | Brig | Nifer ar y Radd (*) |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Prif Weithredwr | 54,101 | 56,298 | 1 (1) |
| 6 | Cyfarwyddwr | 45,257 | 47,095 | 1 (1) |
| 5 | Uwch Reolwr | 36,414 | 37,893 | 4 (3) |
| 4 | Rheolwr Adran | 30,692 | 31,938 | 5 (1) |
| 3 | Uwch Swyddog | 24,970 | 25,983 | 20 (6) |
| 2 | Cynorthwyydd | 19,768 | 20,570 | 9 (2) |
| 1 | Gweinyddwr | 15,606 | 16,240 | 4 (1) |
| | | | CYFANSWM | 44 (15) |

*** Nifer mewn cromfachau – y <u>60% sy'n cael eu cyllido drwy gyllid craidd</u>. Codir am y 40% sy'n weddill am gostau 15 o staff i brosiect Cenedl Hyblyg**

## Cymorth Gwladwriaethol – Cyffredinol

1. Cymorth gwladwriaethol yw unrhyw adnodd cyhoeddus a roddir ar sail ddethol i ymgymeriad a allai effeithio ar gystadleuaeth a masnach o fewn y Gymuned Ewropeaidd.

2. Diffinnir ymgymeriad fel unrhyw endid, waeth beth fo'i statws cyfreithiol, sy'n ymgymryd â gweithgarwch economaidd lle ceir marchnad mewn nwyddau a gwasanaethau cymharol. Gall gynnwys cyrff gwirfoddol a chyrff cyhoeddus neu breifat nid-er-elw pan fyddant yn ymgymryd â gweithgareddau economaidd sydd â chystadleuwyr masnachol.

3. Y meini prawf allweddol ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol yw:

- Rhoddir cymorth gan aelod-wladwriaeth neu drwy adnoddau gwladwriaeth;
- Mae'r mesur yn rhoi mantais i'r sawl sy'n ei dderbyn;
- Tybir bod unrhyw ddyfarniad sy'n bodloni'r holl brofion yn gymorth gwladwriaethol ac felly ei fod yn ddarostyngedig i reoliadau cymorth gwladwriaethol.

4. Wrth asesu a fyddai cyllid craidd sydd i'w dalu gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddosbarthu'n gymorth gwladwriaethol, mae angen ystyried y gweithgareddau a ariennir, hy a ydynt yn weithgareddau economaidd, lle ceir marchnad mewn nwyddau a gwasanaethau cymharol. Er mwyn lliniaru'r risg o gymorth gwladwriaethol, dylai unrhyw gyllid craidd gael ei ddarparu mewn perthynas â gweithgareddau aneconomaidd y sefydliad yn unig, gyda chyllid yn cael ei glustnodi'n benodol a mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fyddai unrhyw weithgarwch economaidd yn cael cymhorthdal.

5. Prif rôl Chwarae Teg yw sicrhau cyfraniad mwyaf posibl menywod yn y gweithlu drwy ddylanwadu ar bolisi, hyrwyddo arfer da, datblygu ac arddangos arfer da, ac ymgymryd ag ymchwil a datblygu. A oes marchnad i'r gwasanaethau hyn? A ddylid eu dosbarthu'n rhai economaidd? A yw rolau penodol y mae Chwarae Teg yn ymgymryd â hwy yn rhai strategol ac yn hanfodol i brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad, datblygu polisi a'i weithredu yn y maes hwn heb ddarparwyr eraill ar y farchnad ar gael ar gyfer y math hwn o wasanaeth? Os felly, gellir cyllido'r rhain ar sail dim cymorth er efallai y bydd rhai materion caffael yn codi.

6. Mae'r cyngor a'r arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a dylanwadu ar bolisïau yn cael eu rhoi am ddim gan nifer fawr o sefydliadau (ee Unsain, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yr Alban). Felly mae'n annhebygol bod marchnad ar gyfer y math hwn o weithgarwch ac fel y cyfryw nid yw darparu gwybodaeth a chanllawiau cyffredinol ac ymwybyddiaeth o faterion cyffredinol sy'n ymwneud â menywod yn debygol o gael ei ddosbarthu'n weithgarwch economaidd. Mae cyllido Chwarae Teg i gynnal y mathau hyn o weithgarwch yn annhebygol o fod yn gymorth gwladwriaethol?

7. Fodd bynnag, dylai contractwyr sy'n ymwneud â pharatoi deunyddiau ar ran Chwarae Teg gael eu dewis yn unol â rheolau caffael drwy dendr agored.

8. Mae darparu cymorth ymgynghoriaeth, cyngor busnes a gweithgarwch hyfforddiant yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn weithgarwch economaidd sydd ar

gael gan eraill ar y farchnad.  Byddai cyllido Chwarae Teg i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn gyfystyr â bod yn gymorth cenedlaethol.

9. Mae safbwynt y Comisiwn Ewropeaidd ar gymorth gweithredu yn un negyddol iawn gan yr ystyrir ei fod yn ystumio'r farchnad ar raddfa fawr - yn nhermau economaidd mae'r Gyfarwyddiaeth Gystadleuaeth yn ystyried y gall cymorth gweithredu arwain at oddef neu hyd yn oed hyrwyddo aneffeithlonrwydd.  Nid yw ystumio o'r fath yn cael ei gyfiawnhau fel arfer gan amcanion y Gymuned.  O dan y rheoliad De minimis, gellir rhoi cymorth i ymgymeriad o unrhyw faint, at unrhyw ddiben, gan gynnwys costau gweithredu yn amodol ar y canlynol:

- Nid yw'r uchafswm cymorth a roddir i ymgymeriad yn fwy na €200,000 dros unrhyw gyfnod o dair blwyddyn gyllidol hy y flwyddyn gyllidol gyfredol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol.
- Rhaid i'r ymgymeriad gael ei hysbysu ei fod yn derbyn cymorth de minimis a gwerth y cymorth.
- Rhaid i gofnodion manwl o gymorth a roddir o dan de minimis gael eu cadw am 10 mlynedd.

10. Ni chaiff cyllid i Chwarae Teg ei ddosbarthu'n gymorth gwladwriaethol ar yr amod bod y gweithgareddau a ariennir yn cael eu cyfyngu i weithgareddau aneconomaidd, lle na cheir marchnad am nwyddau na gwasanaethau cymharol, neu lle mae'r arian cyhoeddus a roddir yn cael ei glustnodi'n benodol ar gyfer y gweithgareddau aneconomaidd hyn, gan sicrhau na fydd unrhyw weithgareddau economaidd (masnachol) yr ymgymerir â hwy gan y sefydliad yn cael cymhorthdal.

11. Dylai'r trefniant neu'r contract cyllido nodi'n benodol na chaiff unrhyw weithgarwch masnachol/economaidd gan y sefydliad ei gyllido o dan y cytundeb.  Dylid cyfeirio'n benodol at gofnodion ar wahân o gostau er mwyn sicrhau tryloywder y broses gyfrifyddu a hynny er mwyn sicrhau na fydd unrhyw weithgarwch economaidd gan y sefydliad yn cael cymhorthdal.

12. Os tybir ei bod yn briodol darparu cyllid craidd ar gyfer gweithgarwch economaidd gan Chwarae Teg, bydd angen i hyn gael ei roi yn unol â'r rheoliad De minimis, a’i adlewyrchu felly yn y cytundeb cyllido.